WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Gan gynnwys Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2014

# Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd: Mawrth 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 138A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones, Paul Goodlad, Melanie Watson, Andy Bruce, Gwilym Bury, John Roberts, Avril Watkins, Debra Allen ac Emma Roberts o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno ac argymhellion 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; er bod angen cryfhau agweddau ar ei drefniadau, mae'r Cyngor mewn sefyllfa rhesymol dda i barhau i gyflawni ei flaenoriaethau yn wyneb rhagor o heriau ariannol 11

Er gwaethaf rhai cryfderau a meysydd lle cafwyd cynnydd, nid yw rhai agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau nac o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor 12

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau bras ymlaen o ran ei ddefnydd o adnoddau, ond mae angen iddo bellach gydgysylltu'r elfennau mewn modd mwy systematig yn wyneb heriau ariannol y dyfodol 21

Cafwyd cynnydd da gan y Cyngor yn erbyn y blaenoriaethau gwella y buom yn edrych arnynt, ond rhywfaint o ddirywiad yn ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol 28

Mae hanes y Cyngor yn awgrymu ei fod yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r heriau mewnol a'r heriau allanol sylweddol y mae'n eu wynebu, ac o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16 39

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 40

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir y Fflint 41

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Sir y Fflint 43

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir y Fflint 2013-14 45

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd i ba raddau y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn llwyddo i gynllunio gwelliannau i'r modd y maent yn cyflenwi gwasanaethau. Yn yr adroddiad hwn, nodir canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor) ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at waith arolygiaethau perthnasol Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r asesiadau a gynhaliwyd ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym mis Mehefin 2014. Mae hefyd yn cynnwys canfyddiadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gynhaliwyd ym mis Medi 2014. Gan ystyried yr holl ganfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a fydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

2 Ni ddylid ystyried y casgliad hwn fel datganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad na rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn barnu i ba raddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, hyd y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

3 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi casglu bod **hanes y Cyngor yn awgrymu ei fod yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r heriau mewnol a'r heriau allanol sylweddol y mae'n eu wynebu, ac o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16**. Mae'r farn hon yn adlewyrchu casgliadau ei asesiad corfforaethol, sef **bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; er bod angen cryfhau agweddau ar ei drefniadau, mae'r Cyngor mewn sefyllfa rhesymol dda i barhau i gyflawni ei flaenoriaethau yn wyneb rhagor o heriau ariannol.**

5 **Er bod rhai cryfderau a meysydd lle cafwyd cynnydd**, canfu'r tîm archwilio **nad yw trefniadau'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau nac o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfres o flaenoriaethau amrywiol sydd wedi'u cyfleu'n glir a chanddynt gefnogaeth eang o fewn y Cyngor ac ymhlith partneriaid;
- b mae cynlluniau corfforaethol y Cyngor a'i adroddiadau ar berfformiad wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r nesaf, ond mae ansawdd y cynlluniau ar lefel gwasanaeth yn anghyson; ac
- c mae strwythurau llywodraethu cadarn ar waith gan amlaf, ond nid yw rhai agweddau'n gweithredu mor effeithiol ag y gallent.

6 Canfuom hefyd **fod y Cyngor wedi cymryd camau bras ymlaen o ran ei ddefnydd o adnoddau, ond bellach mae angen iddo gydgysylltu'r elfennau mewn modd mwy systematig yn wyneb heriau ariannol y dyfodol**. Canfuom y canlynol:

- a bod potensial i welliannau wrth gynllunio'n ariannol gynorthwyo'r Cyngor i barhau â'i record ddiweddar o sicrhau arbedion ariannol yn wyneb llymder cynyddol, ond mae penderfyniadau anodd o'i flaen;
- b bu'n rhaid defnyddio llawer o adnoddau er mwyn llwyddo i gwblhau cytundeb Statws Sengl ac Adolygiad Cyflog Cyfartal y Cyngor, felly bu cynnydd ar flaenoriaethau eraill ym maes Adnoddau Dynol yn arafach na'r bwriad;
- c bod gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei dir a'i adeiladau, ond nad yw'r cysylltiadau rhwng rheoli asedau a chynllunio gwariant refeniw yn ddigon amlwg; ac
- ch er sicrhau gwelliannau sylweddol mewn sawl maes, bod yr adran TGCh wedi'i chael hi'n anodd trefnu ei gwaith yn ôl blaenoriaeth, yn wyneb galw cynyddol.

7 Yn olaf, canfuom fod **y Cyngor**, yn ystod 2013-14, **wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau gwella y buom yn edrych arnynt, ond y cafwyd rhywfaint o ddirywiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol**.

8 Daethom i'r casgliadau canlynol:

- a bod ysgolion Sir y Fflint yn parhau i gynnig gwerth da am arian a bod y Cyngor yn ceisio sicrhau mwy o effeithlonni o fewn y system addysg;
- b bu cynnydd da yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ond bu perfformiad y gwasanaethau plant yn llai cyson yn wyneb galw cynyddol;
- c ar y cyfan, cafwyd rhywfaint o ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, ond rhai enghreifftiau o berfformiad cryf ar draws sawl maes gwasanaeth;
- ch bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth weithredu mentrau i helpu i liniaru effaith y toriadau ar fudd-daliadau lles ac i leihau tlodi tanwydd;
- d bod perfformiad y Cyngor i atal digartrefedd wedi gwella, ond ychydig o gynnydd a gafwyd o ran yr amser y bydd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro; a
- dd bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella gallu ei staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ond mae'n cydnabod nad yw'r cynnydd yn gyson ar draws y Cyngor cyfan.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi cael hyd i bethau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod gwaith blaenorol eleni, ac nid oes unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'r cynigion canlynol ar gyfer gwella yn tarddu o'n gwaith ym mis Medi 2014 ar gyfer yr asesiad corfforaethol.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu dull cyson o gynllunio busnes sy'n annog staff i berchnogi amcanion a thargedau allweddol. |
| **C2** | Dylai'r Cyngor wella ansawdd ei adroddiadau i'r pwyllgorau a'r Cabinet er mwyn sicrhau:<br>• bod adroddiadau'n galluogi cynghorwyr, lle bo angen, i gyfeirio'n rhwydd at bolisïau perthnasol a phenderfyniadau a thrafodaethau blaenorol;<br>• bod y prif negeseuon a'r argymhellion yn glir a chryno; a<br>• bod adroddiadau i'r pwyllgorau craffu yn cynnwys argymhellion neu opsiynau y gallai'r pwyllgorau eu cefnogi. |
| **C3** | Wrth weithredu ei strategaethau diwygiedig ar gyfer Pobl, TGCh a Rheoli Asedau, dylai'r Cyngor sicrhau:<br>• bod eu goblygiadau ariannol yn cael eu cynnwys yn y cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig; a<br>• bod y cysylltiadau rhwng y strategaethau yn cael eu hystyried yn llawn fel bo staff arbenigol ar gael pan fo angen. |
| **C4** | Dylai Arweinwyr Grŵp annog aelodau'n gryf i fanteisio ar Gynllun Datblygu'r Aelodau. |
| **C5** | Dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle, yn sgil adolygu ei strwythurau craffu, i sicrhau bod modd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ychwanegu gwerth gwirioneddol at broses benderfynu'r Cyngor drwy sicrhau cysylltiadau amlycach rhwng agendâu a blaenoriaethau a risgiau'r Cyngor. |
| **C6** | Dylai'r Cyngor:<br>• fabwysiadu dull cyson o reoli risg, gan sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â hynny'n defnyddio dull tebyg o gofnodi effaith, tebygolrwydd a chamau lliniaru; a<br>• chymhwyso'r dull hwn i'w gynlluniau i arbed yn y dyfodol. |
| **C7** | Dylai'r Cyngor sicrhau dull cyson o gynllunio'r gweithlu a defnyddio'r canlyniadau i lywio gostyngiadau mewn staff yn y dyfodol. |

## Cyflwyniad

11 Bob blwyddyn, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd i ba raddau y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yn llwyddo i gynllunio gwelliannau i'r modd y maent yn cyflenwi eu gwasanaethau. Yn Atodiad 1 ceir mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

12 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob Cyngor yn derbyn Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ogystal ag astudiaethau o raglenni blynyddol ar gyfer gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau ac yn canolbwyntio, yn ein gwaith asesu pellach, ar sawl thema allweddol a ddatblygir yn seiliedig ar drafodaeth gyda phob Cyngor.

13 Cynhaliom ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn ystod mis Medi 2014. Mae'r adroddiad gwella blynyddol hwn yn cynnwys adroddiad yr Asesiad Corfforaethol a hefyd yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau rheoleiddio a gyflwynwyd i'r Cyngor ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym mis Mehefin 2014. Er nad yw'r Asesiad Corfforaethol yn anelu i roi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar ganlyniadau'r Cyngor a'i hanes o berfformio, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen yn sail ar gyfer gwella gwasanaethau a swyddogaethau.

14 Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni, sut y mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd y mae wedi'i wneud ers cyhoeddi adroddiad gwella blynyddol diwethaf yr Archwilydd Cyffredinol. I gloi, a chan ystyried hyn oll, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol, ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau fydd yn sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

15 Ni ddylid ystyried y casgliad hwn fel datganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad na rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn barnu i ba raddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, hyd y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

16 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol:
**'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion?'**

17 Mae’r Asesiad Corfforaethol yn trafod y canlynol:

a **Perfformiad a chanlyniadau:**
‘A yw’r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau i wella perfformiad a chanlyniadau?’

b **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**
‘A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?’

c **Llywodraethu ac atebolrwydd:**
‘A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau?’

ch **Defnydd o adnoddau:**
‘A yw’r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni ei gynlluniau i wella perfformiad a chanlyniadau?’

d **Cydweithio a phartneriaethau:**
‘A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio’n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?’

dd **Rheoli gwelliant:**
‘A yw’r Cyngor yn rheoli ei raglen wella mewn modd effeithiol?’

18 Mae’r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu’r sefyllfa wrth gwblhau’r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, mae newidiadau i fodel gweithredu’r Cyngor – ei strwythur rheoli a’r modd y mae uwch reolwyr yn cydweithio – yn gyd-destun pwysig i’r adroddiad hwn.

19 Ym mis Chwefror 2014, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar waith sylweddol i ail-lunio’i strwythur staffio uwch gan anelu i:

a sicrhau bod y sefydliad mor effeithlon ag sy’n bosibl o safbwynt ariannol, a blaenoriaethu ei adnoddau; a

b moderneiddio’r sefydliad er mwyn iddo berfformio’n dda, a bod yn ddiwastraff, yn gynhyrchiol, yn effeithlon a gwydn.

20 Cytunwyd ar y cynigion ym mis Mawrth 2014, a dechreuodd y broses o recriwtio Tîm Prif Swyddogion newydd ym mis Mai. Ar adeg ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol ym mis Medi, roedd yr aelod olaf newydd gael ei benodi i’r tîm.

21 Mae’r model gweithredu newydd yn cael gwared â’r pedair Cyfarwyddiaeth yr oedd gwasanaethau’r Cyngor wedi’u lleoli ynddynt yn flaenorol. Yn lle hynny, mae un haen o naw Prif Swyddog yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr. Mae’r cynnig yn lleihau nifer yr uwch reolwyr o 18 i 10, gan arbed £0.5 miliwn o leiaf mewn blwyddyn ariannol lawn. Mae’r Cyngor wedi dweud bod y cynigion yn ‘hollbwysig er mwyn cyrraedd ein targedau ar gyfer y gyllideb ac yn rhan annatod o’n rhaglen drawsnewid’.

22 Mae’n rhy gynnar i werthuso effaith gyffredinol y newidiadau hyn. Fodd bynnag, cyfeirir yn rhannau eraill o’r adroddiad hwn at botensial cadarnhaol y model gweithredu newydd, ynghyd â rhai o’r risgiau cysylltiedig. Wrth i’r model gweithredu newydd ymsefydlogi, mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd yn gallu gwella a thrawsnewid ei wasanaethau ynghynt a chryfhau ei allu i ymateb yn effeithiol i newidiadau allanol.

23 Ers cynnal ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, rydym wedi cyfarfod â’r Tîm Prif Swyddogion, yr Arweinydd a’r Dirprwy Arweinydd, a thrafod ein canfyddiadau dros dro. Mae’r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i’r canfyddiadau hynny ac eisoes wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i’r afael â’n cynigion ar gyfer gwella.

# Adroddiad Manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; er bod angen cryfhau agweddau ar ei drefniadau, mae'r Cyngor mewn sefyllfa rhesymol dda i barhau i gyflawni ei flaenoriaethau yn wyneb rhagor o heriau ariannol



## Er gwaethaf rhai cryfderau a meysydd lle cafwyd cynnydd, nid yw rhai agweddau ar drefniadau'r Cygor yn llwyr gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau nac o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor

### Mae'r Cyngor wedi pennu ystod amrywiol o flaenoriaethau sydd wedi'u cyfleu'n glir, ac mae'r rhain wedi cael cefnogaeth eang o fewn y Cyngor ac ymhlith partneriaid

24 Mae'r Cyngor yn elwa ar arweinyddiaeth wleidyddol sefydlog ac uchel ei pharch, ac mae'r holl bleidiau gwleidyddol, ar y cyfan, yn cefnogi uchelgais yr arweinyddiaeth honno ar gyfer y sir. Ceir llawer llai o densiwn gwleidyddol nag a fu yn ystod gweinyddiaethau blaenorol. Yn ddiweddar, dechreuodd yr arweinyddiaeth ymgysylltu'n fwy helaeth nag o'r blaen â'r gwrthbleidiau er mwyn braenaru'r tir ar gyfer cyllideb 2015-16. Bydd cyfleoedd i greu consensws yn y modd hwn yn dod yn gynyddol bwysig yn y dyfodol wrth i'r Cyngor wynebu mwy a mwy o benderfyniadau anodd.

25 Mae gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Cyngor wedi cael eu datblygu ar y cyd â gweledigaeth a blaenoriaethau ei bartneriaid o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), ac yn eu hategu. Gan weithio gyda'i bartneriaid, mae'r Cyngor wedi sefydlu wyth blaenoriaeth sefydlog ar gyfer y cyfnod tra bo mewn grym. Mae'r blaenoriaethau, sy'n cynnwys Amcanion Gwella'r Cyngor, yn trafod y themâu canlynol:

- a Byw'n Dda
- b Tlodi
- c Tai
- ch Yr Amgylchedd
- d Economi a Mentergarwch
- dd Sgiliau a Dysgu
- e Cymunedau Diogel
- f Cyngor Modern ac Effeithlon

26 Mae'r Cyngor yn nodi ei weledigaeth yn glir yn ei Gynllun Gwella, fel sy'n ofynnol ym Mesur Llywodraeth Leol 2009 (y Mesur). Ar gyfer 2014-15, mae cyfres gydlynol y Cyngor o wyth blaenoriaeth strategol wedi'i thanategu gan is-flaenoriaethau manylach, y mae rhai ohonynt wedi'u nodi'n glir fel meysydd y dylid rhoi sylw neilltuol iddynt yn ystod y flwyddyn. Er bod gweledigaeth y Cyngor yn eang, mae'n dangos ymrwymiad clir tuag at welliant parhaus. Adlewyrchir hyn gan dargedau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau, yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'i Amcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn.

27 Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd mewn partneriaeth ac mewn cydweithrediad â chynghorau eraill, sefydliadau sector cyhoeddus, a phartneriaid o'r sector busnes a'r sector gwirfoddol, ac mae wedi ymrwymo'n barhaus i wneud hynny. Ceir ansicrwydd ynghylch cyfluniad llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Er hynny, mae gan y Cyngor weledigaeth glir ynglŷn â'i rôl yn y dyfodol mewn trefniadau partneriaethol a chydweithredol, gan gydnabod na all barhau i gyflenwi'r holl wasanaethau yn yr un modd ag a wnaeth yn y gorffennol. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan amlwg o fewn y BGLl, ac mae partneriaid yn canmol parodrwydd ac ymrwymiad uwch swyddogion ac aelodau'r Cyngor i gydweithio.

28 Mae'r Cyngor wedi cysoni ei Gynllun Gwella ei hun â Chynllun Integredig Sengl ehangach Sir y Fflint, y 'Cynllun Lles', a oruchwylir gan y BGLl. Mae blaenoriaethau'r Cyngor felly'n cynrychioli ei gyfraniad cytunedig tuag at sicrhau'r canlyniadau ehangach a nodir yn y 'Cynllun Lles'. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cytuno ar flaenoriaethau'r 'Cynllun Lles', gan roi adlewyrchiad teg o flaenoriaethau partneriaid unigol, fel eu bod yn gyson ag amcanion a chanlyniadau dymunol y sefydliadau partner. Er nad oes gan y BGLl na'r Cyngor gynllun adnoddau cyffredinol na chronfa gyfun ar gyfer cyflawni'r 'Cynllun Lles', cytunir ar adnoddau fesul prosiect.

29 Mae gan y Cyngor fframwaith a chanllawiau ar waith i annog dull cyson o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth o'i atebolrwydd i'r cyhoedd drwy ei Fframwaith Gwasanaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd. Mae'r canllawiau i'r staff ynghylch diben a phwysigrwydd ymgysylltu effeithiol, sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor, yn glir a chryno. Cefnogir y canllawiau gan dempledi, ac amrywiaeth o astudiaethau achos i ddangos arferion ymgysylltu da gydag ystod o gynulleidfaoedd.

30 Er bod ganddo ei fframwaith a'i ganllawiau, a rhai dadansoddiadau gan wasanaethau unigol o anghenion cymunedau a defnyddwyr gwasanaeth, nid yw'r Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'i flaenoriaethau mewn modd systematig. Yn lle hynny, mae'r Cyngor yn tueddu i ddibynnu ar safbwyntiau cynghorwyr wedi iddynt hwythau ymgysylltu â phobl yn eu wardiau. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyngor na'i bartneriaid fynediad at unrhyw asesiad cynhwysfawr diweddar o anghenion lleol.

31 Mae'r Cyngor yn ehangu'r ffyrdd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion er mwyn ceisio ymgysylltu â gwahanol grwpiau. Dechreuwyd proses y Cyngor ar gyfer ymgynghori ar gyllideb 2015-16 drwy'r rhyngrwyd, a defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i gynnal trafodaeth ar Twitter. Mae gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio adborth i wella digwyddiadau ymgysylltu. Er enghraifft, trefnwyd digwyddiad i bobl ifanc ag anableddau yn seiliedig ar adborth gan rai fu'n bresennol mewn digwyddiad blaenorol. Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r newidiadau i'r digwyddiad. Mae cwmni tai newydd y Cyngor, Rheoli Cartrefi ac Eiddo Gogledd Ddwyrain Cymru, yn gwneud defnydd helaeth ac effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'i gwsmeriaid a chyda dinasyddion ar raddfa ehangach.

## Mae cynlluniau corfforaethol y Cyngor a'i adroddiadau ar berfformiad wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r nesaf, ond mae ansawdd cynlluniau ar lefel gwasanaeth yn anghyson

32 Yn y gorffennol, rydym wedi beirniadu'r Cynlluniau Gwella blynyddol gan nad ydynt wedi bod yn ddigon effeithiol wrth gyfleu blaenoriaethau'r Cyngor i ddinasyddion. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i wella ansawdd y cynllun allweddol hwn, ac mae'r Cynllun Gwella ar gyfer 2014-15[1] yn ddogfen glir a hygyrch sy'n cyfleu, mewn modd llawer mwy eglur nag o'r blaen, yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a sut y gellir mesur a gwerthuso ei lwyddiant. Cyflwynwyd tystysgrif gennym ym mis Gorffennaf 2014 yn cadarnhau bod y Cynllun Gwella yn cyflawni dyletswyddau'r Cyngor o dan y Mesur (gweler Atodiad 2).

33 Ar ôl cytuno i ddefnyddio'i fodel gweithredu newydd, cytunodd y Cyngor hefyd i roi'r gorau i gynhyrchu'r Cynlluniau Cyfarwyddiaeth blynyddol a oedd yn nodi cyfraniad pob Cyfarwyddiaeth tuag at gyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y cynlluniau hyn yn cymryd amser maith i'w cynhyrchu ac nad oedd rhyw lawer o fudd iddynt. Roeddent yn tueddu i bwysleisio'r gwahaniaethau rhwng y Cyfarwyddiaethau ac, wrth wneud hynny, yn tanseilio pwysigrwydd dull corfforaethol o gyflawni llawer o flaenoriaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai'n ymwneud â'r thema 'Cyngor Modern ac Effeithlon'.

34 Gwelsom anghysondeb sylweddol yn ansawdd y cynlluniau busnes a'r cynlluniau gwasanaeth er mwyn cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor. Roeddem yn ei chael hi'n anodd olrhain yr 'edafedd aur' o'r Amcanion Gwella eu hunain at y lefel lle nodir beth yw rôl y staff er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Mewn adroddiad gan yr Adran Archwilio Mewnol ar reoli risg, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014, nodwyd nad oedd gan rai gwasanaethau gynlluniau gwasanaeth ar waith yn ystod 2013-14. Mae sawl fformat gwahanol yn cael ei ddefnyddio ymhlith y cynlluniau gwasanaeth a archwiliwyd gennym. Efallai nad yw'n addas cael fformat unffurf ar gyfer cynllunio gwasanaethau, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu dull corfforaethol, gorfodol a chyfredol o gynllunio gwasanaethau Mae'r Cyngor yn bwriadu paratoi i roi'r dull hwn ar waith ar gyfer 2015-16, gan adolygu'r dulliau amrywiol a ddefnyddir gan wahanol wasanaethau ar hyn o bryd yn sail ar ei gyfer.

35 O ran y graddau y bydd staff yn perchnogi ac yn ymgysylltu â'r amcanion a'r targedau hynny sy'n berthnasol i'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, gwelsom ddarlun cymysg. Nid yw proses arfarnu staff y Cyngor yn cael ei gweithredu'n gyson, ac nid yw'n cyrraedd targed cwblhau'r Cyngor ei hun. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o staff y buom yn siarad â hwy yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd goruchwylio un wrth un a gawsant. Mae cyfarfodydd o'r fath yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio mewn modd adeiladol ar berfformiad a chynnydd ac i ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau er mwyn cyflawni nodau cytunedig. Mae'r Cyngor wedi hen ddechrau gweithredu proses arfarnu perfformiad newydd, a'r nod yw y bydd yr holl staff wedi'u harfarnu o dan y system newydd erbyn canol 2015.

1 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-15 ar gael ar ei wefan: http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Policy-and-Performance/Cynllun-Gwella-2014--15.pdf.

36 Ceir hefyd nifer o elfennau cryf yn nhrefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Er enghraifft, mae canllawiau ar osod targedau yn cynnwys gofynion defnyddiol i gynnwys targedau uchelgeisiol mwy hirdymor ac i amlygu 'targedau cynnal'. Mae'r targedau cynnal hyn yn ddull gwerthfawr o sicrhau nad yw ffocws ar faes penodol yn amharu ar berfformiad agweddau eraill ar gyflenwi gwasanaeth.

37 Mae gan y Cyngor ffocws clir ar wella perfformiad a chanlyniadau gwasanaethau, ac mae hyn i'w weld yn fwyaf clir ym mhroses ei gynllun gwella blynyddol. Roedd y mwyafrif sylweddol o dargedau blynyddol (a llawer o dargedau byrdymor a thymor canolig uchelgeisiol) yn rhagweld y byddai perfformiad yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen iddo adolygu ei flaenoriaethau a maint ei uchelgais, i adlewyrchu'r her gynyddol a wynebir o ran ei gyllideb, gan roi mwy o bwyslais ar effeithlonni gwasanaethau hyd yr eithaf.

38 Mae gan y Cyngor ddull cadarn o sicrhau ansawdd a chywirdeb ei Adroddiadau Blynyddol ar Berfformiad, sy'n ofynnol o dan y Mesur. Caiff adroddiadau drafft eu gwirio gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y craidd corfforaethol. Caiff cynnwys adroddiadau drafft ei herio, gan gynnig a chytuno ar ddiwygiadau cyn llunio'r adroddiadau terfynol. Mae'r broses, fodd bynnag, yn cynnwys sawl haen ac yn dreth ar adnoddau staff. Gan gydnabod hyn, mae'r Cyngor yn cynllunio i archwilio dulliau eraill, llai beichus o ran adnoddau, o gyflawni'r agwedd hon ar reoli ansawdd.

39 Yn y gorffennol, rydym wedi adrodd bod agweddau ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn gymhleth. Rydym hefyd wedi beirniadu'r adroddiad gan nad yw ei negeseuon allweddol yn ddigon hygyrch i'r cyhoedd ac i gynghorwyr. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i gynigion blaenorol ar gyfer gwella, a barnwyd bod asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2013-14, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, yn cydymffurfio â gofynion y Mesur. Cyflwynwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau ein barn ym mis Tachwedd (gweler Atodiad 3).

40 Mae adroddiadau perfformiad eraill a gyflwynir i'r pwyllgorau yn dal i fod yn faith iawn ac yn hynod fanwl. Mae'r Cyngor bellach wedi dechrau gweithredu trefn 'adrodd eithriadau' sy'n amlygu'r agweddau hynny yn unig lle roedd perfformiad yn waeth na'r disgwyl, neu lle ceir risg sylweddol i gynnydd yn y dyfodol. Mae potensial i hyn wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd adroddiadau perfformiad.

41 Mae'r BGLl wedi llwyddo i fabwysiadu fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Integredig Sengl. Mae'r fframwaith yn cynnwys amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau canol a diwedd blwyddyn o berfformiad partneriaethau, ac yn gofyn bod y BGLl yn cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd bob blwyddyn sy'n rhoi crynodeb o'r effaith y mae wedi'i sicrhau. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys mesurau gwerthfawr sy'n dangos cyflawniad y rhan fwyaf o'r canlyniadau partneriaeth. Fodd bynnag, mae peth o'r wybodaeth am berfformiad yn fwy tueddol o drafod mewnbwn, prosesau ac allbwn, a gallai gyfleu'r â'r budd i'r cyhoedd mewn modd.

42 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o hyd a lled ei bartneriaethau a'r gwaith y mae'n ei wneud ar y cyd, ac mae wedi llunio datganiad sefyllfa yn nodi ei bartneriaethau strategol a'i gydweithrediadau rhanbarthol yn 2014. Mae'r wybodaeth yn y datganiad wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cynlluniau a rheoli perfformiad yn y dyfodol mewn perthynas â phartneriaethau unigol. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor wneud mwy i egluro'r effaith a fwriadwyd yn sgil rhai partneriaethau a threfniadau i weithio ar y cyd, a'r manteision y dylent eu sicrhau i'r cyhoedd.

## Mae strwythurau llywodraethu cadarn ar waith gan amlaf, ond nid yw rhai agweddau'n gweithio mor effeithiol ag y gallent

### Mae gan y Cyngor strwythurau a threfniadau cadarn ar waith i gefnogi llywodraethu da, ond mae rhai o'i strategaethau a'u dogfennau ategol wedi dyddio

43 Mae Fframwaith Llywodraethu cynhwysfawr ar waith sy'n nodi'r strategaethau a'r trefniadau cynllunio sydd ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei gynnal a'i lywodraethu'n dda. Yn y Fframwaith ceir disgrifiad clir o rolau, cyfrifoldebau a llinellau adrodd y pwyllgorau a'r swyddogion. Mae hefyd yn manylu ar drefniadau sicrhau mewnol ac allanol a'r pedair strategaeth alluogi gorfforaethol. Ystyrir mai'r rhain yw conglfeini trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae gan y Cyngor gyfansoddiad cynhwysfawr, sydd ar ganol rhaglen adolygu a gynhelir dros gyfnod treigl o dair blynedd, er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar ei gynnwys ac mae'r rhaglen archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ag elfennau allweddol fel cwblhau datganiadau o fuddiant gan gynghorwyr.

44 Caiff trefniadau llywodraethu eu hadolygu'n flynyddol gan benaethiaid gwasanaeth a phrif swyddogion sy'n atebol am lywodraethu o fewn eu meysydd gwasanaeth. Yn gynyddol, mae'r aelodau hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o hunanasesu trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, mae rhai o strategaethau galluogi'r Cyngor, fel y strategaethau ar gyfer AD a TGCh, wedi dyddio ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Canfuom fod y Cyngor wedi colli golwg ar amcanion y strategaethau presennol, gan ganolbwyntio yn hytrach ar gynlluniau gweithredu culach eu ffocws. Nid yw'r Cyngor wedi cadw rheolaeth digon da ar y cysylltiadau rhwng ei Strategaeth Rheoli Asedau, ei Strategaeth TGCh a'i Strategaeth Pobl, a goblygiadau'r cysylltiadau hynny wrth gynllunio'n ariannol. Mae hyn yn dangos nad yw'r strategaethau wedi llwyr gefnogi'r fframwaith llywodraethu, yn ôl y bwriad.

45 Yn sgil strwythur a ffordd y Tîm Prif Swyddogion newydd o weithio, ceir potensial i nodi a manteisio, mewn modd mwy effeithiol nag o'r blaen, ar y cysylltiadau rhwng pedair strategaeth alluogi'r Cyngor. Bydd hyn yn galluogi cynghorwyr i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn modd mwy cydlynol.

46 Mae'r cyfansoddiad yn rhoi disgrifiad clir o rolau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r swyddogion, ac mae'r Arweinydd yn deall yn glir mai aelodau'r Cabinet sydd yn atebol yn derfynol am gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gyfleu'n glir mewn adroddiadau pwyllgor nac yn adroddiadau'r Cabinet, nad ydynt yn cynnwys enw'r aelod Cabinet cyfrifol. Swyddogion sydd yn arwain y gwaith o gyflwyno papurau, ac er bod aelodau Cabinet yn rhoi mewnbwn deallus a chraff i'r trafodaethau dilynol, gall hyn greu ansicrwydd ynghylch atebolrwydd, yn enwedig ymhlith y cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfodydd.

47 Mae amrywiaeth o drefniadau llywodraethu gwahanol ond priodol yn tanategu'r gwaith rhanbarthol a lleol y mae'r Cyngor yn ei gyflawni ar y cyd. Mae Cyd-bwyllgor a chanddo gyfansoddiad ffurfiol yn goruchwylio gwaith Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, er enghraifft, a GwE, y consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol.

## Mae trefniadau archwilio mewnol y Cyngor yn gadarn ac yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Archwilio

48 Mae rhaglen archwilio mewnol y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i newidiadau i'r risg a'r galw. Mae'r Cyngor yn creu cynllun strategol archwilio mewnol tair blynedd, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol. Mae'n rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau, risgiau a meysydd i'w gwella o fewn y Cyngor. Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau a gynlluniwyd er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r strwythur rheoli. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r holl brif swyddogion newydd a'u timau er mwyn cadarnhau bod cynlluniau archwilio yn dal i fod yn ddilys. O ganlyniad i hyn, mae'r rhaglen archwilio mewnol wedi cael ei diwygio fel y bo'n briodol. Mae'r cynllun archwilio mewnol yn trafod yr holl bortffolios, ac wedi'i gytuno gan y Pwyllgor Archwilio. Caiff gweithrediad argymhellion archwilio mewnol ac allanol ei fonitro'n agos. Caiff argymhellion o'r adroddiadau hyn eu holrhain yn electronig, ac adroddir wrth y Pwyllgor Archwilio am unrhyw fethiant i ymateb. Yn ogystal â hyn, mae'r archwilydd mewnol yn cyfarfod â thimau adrannol bob chwarter i fonitro cynnydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn effeithiol ar y cyfan; mae'r aelodau'n deall eu rôl a'r pwyllgor yn cynnig lefel dda o her.

## Mae aelodau etholedig yn cyflawni eu rolau'n ddiwyd, ond mae effaith craffu yn llai nag y gallai fod

49 Mae aelodau'r Cabinet yn hyddysg yn eu portffolios ar y cyfan. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd â'r uwch swyddogion perthnasol ac mae gan yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd berthynas adeiladol â'r Prif Weithredwr. Mae cyfarfodydd Cabinet anffurfiol â'r Tîm Prif Swyddogion cyn pob cyfarfod o'r Cabinet yn ffordd gynhyrchiol o egluro cynnwys y papurau sydd ar ddod wrth yr aelodau. Yn sgil hynny, mae'r penderfyniadau ffurfiol a wneir yng nghyfarfodydd dilynol y Cabinet yn rhai deallus. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn llifo heb wastraffu amser, er mai prin yn aml yw'r drafodaeth a gynhelir o flaen y cyhoedd.

50 Er bod rhaglenni a hyfforddiant i ddatblygu'r aelodau yn cael eu cynnig a'u hyrwyddo, ni cheir presenoldeb da ynddynt. Ni chafwyd unrhyw lwyddiant ychwaith wrth ddefnyddio adolygiadau o ddatblygiad personol yr aelodau. Mae'n briodol na chaiff cynghorwyr ond cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio neu'r Pwyllgor Trwyddedu ar ôl derbyn hyfforddiant penodol, ac fe geir presenoldeb da ar y cyrsiau hynny. Fodd bynnag, cafwyd presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi eraill. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o hyn, ac yn newid y modd y mae rhai mathau o hyfforddiant yn cael eu cyflenwi. Nid yw'r aelodau yn teimlo eu bod yn cael cyfle i lunio rhaglenni hyfforddi, ond ni ysgogir datblygiad yr aelodau o fewn y Cyngor.

51 Mae rhai aelodau hirsefydlog yn cwestiynu'r angen am hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd y pwyllgorau amrywiol y buom yn eu harsyllu yn awgrymu bod potensial o hyd i wella sgiliau'r aelodau ar agweddau fel cadeirio cyfarfodydd, dehongli adroddiadau cyngor a chodi materion strategol i'w trafod, yn hytrach na materion seiliedig ar ward.

52 Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor trosolwg a chraffu, a chanddynt adnoddau da a chefnogaeth swyddogion penodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cydbwysedd y gwaith rhwng gwahanol bwyllgorau yn amrywio, a bod nifer y pwyllgorau'n gymharol uchel o gymharu â chyfartaledd Cymru. Nid yw'r strwythurau trosolwg a chraffu wedi cael eu hadolygu ers 2010, ac mae'r Cyngor bellach yn cynllunio i'w hadolygu.

53 Bydd aelodau'r Cabinet yn rhoi cefnogaeth dda i'r broses graffu drwy fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae effaith y broses graffu ar y penderfyniadau a wneir yn aneglur yn aml. Adroddiadau monitro ar faterion fel y gyllideb neu berfformiad yn erbyn targedau yw cyfran fawr o waith y pwyllgorau craffu, er bod aelodau unigol hefyd yn codi eitemau ac yn gofyn am adroddiadau ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt hwy. Mae a wnelo cyfran fechan o agendâu craffu â 'chraffu cyn gwneud penderfyniad' lle bydd pwyllgorau'n ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet, lle gwneir penderfyniad yn eu cylch. Mae gan bob pwyllgor craffu flaenraglenni ond nid yw'n glir sut y mae blaenoriaethau corfforaethol, agenda'r Cabinet na'r proffil risgiau corfforaethol yn dylanwadu ar y rhain.

54 Mae lefel yr her ac ansawdd y drafodaeth mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn amrywio. Ceir enghreifftiau lle cafwyd herio pendant gan bwyllgor craffu, ee pan sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu dull y Cyngor o osod targedau. Fodd bynnag, adroddiadau i'w nodi yn aml yw'r adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau craffu yn hytrach na bod angen cytuno ar argymhellion i'w cynnig i'r Cabinet. Canlyniad hyn yw tuedd i'r trafodaethau fod yn brin o ffocws, a chyfyngu ar y swyddogaeth graffu, o ran ei gyfraniad tuag at bolisi neu flaenoriaethau'r Cyngor, ac o ran sicrhau bod trafodaethau'n elwa ar ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol.

55 Ceir gormod o amrywio yn ansawdd y papurau a gyflwynir i bwyllgorau craffu ac i'r Cabinet. Mae rhai adroddiadau'n rhy hir, yn rhy fanwl neu'n cynnwys jargon diangen, gan olygu y gallant fod yn anodd i aelodau eu deall os nad ydynt yn arbenigo yn y pwnc dan sylw. Er enghraifft, mae'r adroddiadau chwarter TGCh a gyflwynir i'r Cabinet ac i'r pwyllgorau yn cynnwys dangosyddion perfformiad defnyddiol yn ymwneud â bodlonrwydd cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae cyfeiriadau at gynnydd mewn prosiectau mwy sy'n gysylltiedig â systemau yn fwy aneglur. Maent yn dibynnu ar yr aelodau i gyfeirio at adroddiadau blaenorol er mwyn deall sut mae prosiectau wedi datblygu, neu faint o waith sydd ar ôl. Nid yw papurau cyllid na phapurau'n ymwneud â'r gyllideb yn hawdd eu deall ychwaith. Mae hyn yn achosi risg i'r Cyngor o beidio herio ei berfformiad ariannol yn ddigonol, oherwydd diffyg dealltwriaeth lwyr o'r materion ymhlith yr aelodau.

## Hyd yma, nid yw gwelliannau i'r trefniadau cymhleth blaenorol ar gyfer rheoli risg wedi arwain at system gadarn a weithredir yn gyson

56 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod ar daith o ran datblygu dull cadarn o nodi a rheoli risg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi ceisio symleiddio system rheoli risg fu gynt yn gymhleth, ond nid ydyw eto wedi sefydlu trefniadau a gymhwysir yn gyson ar draws y sefydliad.

57 O dan y trefniadau presennol, ni chaiff risgiau corfforaethol y Cyngor ond eu hadlewyrchu yn ei Ddatganiad Llywodraethu a'i Gynllun Gwella Blynyddol. Gan hynny, nid oes system 'fyw' effeithiol er mwyn nodi a rheoli risgiau newydd ar lefel gorfforaethol. Nid oes proses gadarn er mwyn nodi risgiau gweithredol sy'n troi'n fwy difrifol, ac a allai gael eu rheoli'n well o'u hystyried yn risgiau corfforaethol.

58 Er bod y Cyngor wedi llunio canllawiau helaeth ar reoli risg, mae rhai agweddau arnynt wedi dyddio. Disgwyliad y Cyngor yw bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli o fewn cynlluniau gwasanaeth ond, fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw gwaith cynllunio'r gwasanaethau ar hyn o bryd yn gyson â'r canllawiau corfforaethol. Nid yw'r defnydd anghyson o dermau dryslyd o unrhyw fudd ychwaith, na'r duedd mewn rhai meysydd i beidio â rhoi digon o fanylion wrth ddisgrifio risgiau.

## Ceir rhai gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant

59 Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, cwblhawyd adolygiad gennym o'r holl gynghorau a'u trefniadau i gefnogi diogelu plant. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer chwythu'r chwiban. Yn ogystal â chyfweld staff a chynghorwyr allweddol a darllen dogfennau perthnasol, cynhaliwyd arolwg ar-lein ymhlith aelodau etholedig, uwch reolwyr a staff yn y gwasanaethau addysg a hamdden i brofi trefniadau pob cyngor.

60 Rydym wedi adrodd canlyniadau’r gwaith hwn ar wahân a chyflwyno dau gynnig ar gyfer gwella, nad ydynt wedi’u hailadrodd yn yr adroddiad hwn. Dyma grynodeb o’r hyn a ganfuom:

a mae’r Cyngor wedi sefydlu trefniadau llywodraethu a chraffu clir er mwyn rheoli ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant, ond mae’r ffaith na cheir polisi lleol penodol yn sail ar gyfer penderfyniadau yn wendid;

b roedd y gyfran o ymatebwyr yr arolwg a wyddai pwy oedd Swyddog Dynodedig y Cyngor a’r cynghorydd arweiniol ar gyfer Diogelu Plant yn sylweddol is na chyfartaledd ein harolwg;

c mae’r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad mewn materion diogelu drwy drefniant ad hoc, yn hytrach nag yn rheolaidd;

ch nid oes gan y Cyngor unrhyw broses ffurfiol i gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant diogelu, ac roedd y gyfran o ymatebwyr yr arolwg a adroddai eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar yn is na’r cyfartaledd;

d mae’r Cyngor wedi’i sicrhau ei hun ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data; ac

dd mae gan y Cyngor bolisi chwythu’r chwiban boddhaol y mae’n ei gymhwyso mewn modd priodol.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau bras ymlaen o ran ei ddefnydd o adnoddau, ond mae angen iddo bellach gydgysylltu'r elfennau mewn modd mwy systematig yn wyneb heriau ariannol y dyfodol

### Mae potensial i welliannau wrth gynllunio'n ariannol gynorthwyo'r Cyngor i barhau â'i record ddiweddar o sicrhau arbedion ariannol yn wyneb llymder cynyddol, ond mae penderfyniadau anodd o'i flaen

61 Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi beirniadu gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Hyd yn ddiweddar, mae gwaith cynllunio'r gyllideb wedi tueddu i ganolbwyntio ar y flwyddyn nesaf yn unig. Mae'r Cyngor felly wedi tueddu i ddibynnu ar brosiectau yn ystod y flwyddyn i sicrhau'r arbedion angenrheidiol, yn hytrach na dechrau ar waith tymor hwy a allai gymryd sawl blwyddyn i esgor ar unrhyw fudd ariannol. Mae'r dull byrdymor hwn wedi cyfrannu at gyflymder y newid fu ei angen yn ystod 2014 i ymdrin â'r gostyngiad yng nghyllid y llywodraeth ganolog ar gyfer 2015-16, oedd yn fwy na'r disgwyl ac sy'n debygol o barhau.

62 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r angen i wella ei waith cynllunio ariannol tymor canolig, ac erbyn hyn wedi rhoi cynllun tair blynedd ar waith y bydd yn ei adnewyddu'n flynyddol. Mae potensial i'r Tîm Prif Swyddogion newydd gyfrannu safbwynt mwy corfforaethol ac eang ei ystod nag o'r blaen i'r cynllun hwn, gan gynyddu gallu'r Cyngor i reoli ei holl adnoddau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw ei Brif Swyddog Cyllid yn aelod o'r Tîm Prif Swyddogion, ac wedi llwyddo i liniaru'r risgiau hyn hyd yma.


63 Oherwydd demograffeg Sir y Fflint, mae'r Cyngor yn derbyn llai o gyllid fesul pen o'r boblogaeth drwy Grant Cynnal Refeniw (RSG) Llywodraeth Cymru na mwyafrif y cynghorau yng Nghymru. Mae'r cyfraniad RSG, ynghyd â dyraniad Sir y Fflint o drethi annomestig, yn cynrychioli tua 75 y cant o gyllideb y Cyngor, a daw'r gweddill o'r Dreth Gyngor. Mae'r cyfraddau Treth Gyngor yn Sir y Fflint fymryn yn is na chyfartaledd Cymru ac wedi codi'n gymharol araf dros y blynyddoedd diwethaf.

64 Cyllideb refeniw gros[2] Sir y Fflint ar gyfer 2014-15 oedd £315.3 miliwn. Yn bennaf o ganlyniad i'r lefel gymharol isel o incwm RSG, mae'r gwariant refeniw gros fesul pen o'r boblogaeth yn Sir y Fflint yn llawer is na'r cyfartaledd. Mae hyn yn golygu bod holl wasanaethau'r cyngor gyda'i gilydd yn costio llai i'w cynnal na'r gwasanaethau ym mron bob cyngor arall yng Nghymru.

65 Mae Arddangosyn 1 yn dangos mai £2,064 oedd y gwariant refeniw gros fesul pen o'r boblogaeth yn Sir y Fflint, ychydig yn is na'r ffigur yn 2011-12. Yn ystod yr un cyfnod, cododd y gyllideb gros gyfartalog fesul pen yng Nghymru o £2,259 yn 2011-12 i £2,312 yn 2014-15. Mewn termau real, cyfrifwn fod y gwariant refeniw gros yng nghyllideb Sir y Fflint wedi gostwng tua saith y cant ers 2011-12. Mae hyn yn cymharu â'r gostyngiad cyfartalog ymhlith cynghorau ledled Cymru o tua thri y cant.

2 Adroddir cyllidebau refeniw gros heb gynnwys incwm a thaliadau, ond maent yn cynnwys grantiau penodol a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 1 – Gwariant refeniw gros yn y gyllideb fesul pen o'r boblogaeth




66 Er gwaethaf ei ddull o gynllunio'n ariannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf, mae'r Cyngor felly wedi sicrhau arbedion ac effeithlonni sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ymddangos iddo gyflawni hyn hefyd amharu o gwbl ar hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau. Yn ystod y tair blynedd o 2011-12 hyd 2013-14, roedd y Cyngor yn cynllunio i sicrhau tua £19 miliwn o arbedion, ac yn ôl ei adroddiadau sicrhaodd tua 80 y cant o'r cynlluniau hyn y canlyniadau a ddymunwyd. Roedd cyllideb 2014-15 yn cynnwys cynlluniau am arbedion pellach o £11.9 miliwn. Mae'r Cyngor wedi adrodd wrth yr aelodau fod y cynlluniau ar y trywydd iawn i sicrhau arbedion o £9 miliwn ym mis Rhagfyr 2014.

67 Mae'r gostyngiadau i'r gyllideb hyd yma'n tarddu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys amrywiaeth o adolygiadau gwasanaeth a gwell trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i wella eto ar ei ddull o gaffael nwyddau a gwasanaethau.

68 Mae'r swyddogion yn rhoi cefnogaeth dda i'r broses o gynllunio'r gyllideb drwy ddarparu amcangyfrifon manwl o'r pwysau tebygol ar gostau a newidiadau eraill yn y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, ychydig o gyfeirio amlwg a gafwyd at flaenoriaethau'r Cyngor yng nghyllidebau'r blynyddoedd diwethaf. Wrth i ostyngiadau pellach i'r gyllideb frathu, mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn wynebu penderfyniadau anodd y bydd yn rhaid iddynt gael eu llywio gan y blaenoriaethau y mae wedi'u pennu ar ei gyfer eu hun. Mae potensial i fodelau cynllunio gwasanaeth newydd gyfrannu mewn modd cadarnhaol at yr wybodaeth sy'n sail i'r penderfyniadau hynny.

69 Bu cynllunio cyllideb 2015-16 yn arbennig o heriol, o ystyried y cyhoeddiad hwyr ynghylch gostyngiad mwy na'r disgwyl i'r RSG. Yn y gorffennol, mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi tueddu i ddatgelu ei chynlluniau ar gyfer y gyllideb yn hwyr yn y broses gynllunio. Eleni, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r heriau y mae'n eu wynebu, ac mae arweinwyr gwleidyddol wedi manteisio ar y cyfle i ymgysylltu ar raddfa ehangach nag o'r blaen â phleidiau gwleidyddol eraill. Bu proses o'r fath yn werthfawr mewn cynghorau eraill er mwyn sicrhau lefel fuddiol o gonsensws cyn gwneud penderfyniadau mawr. Wrth gynnal ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Medi 2014, roedd cyllideb 2015-16 yn cynnwys bwlch ariannu o oddeutu £16 miliwn. Ar y pryd, yr oedd risg sylweddol na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i bennu cyllideb gytbwys. Erbyn mis Chwefror 2015, fodd bynnag, deellir bod y bwlch hwn wedi gostwng i oddeutu £0.8 miliwn. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn ei bod hi'n debygol y ceir gostyngiadau mawr pellach i'w incwm yn y blynyddoedd nesaf, ac y bydd y penderfyniadau y mae angen eu gwneud wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol yn troi'n fwyfwy anodd.

70 Mae'r Cyngor yn buddsoddi llawer o amser ac ymdrech i fonitro ei berfformiad ariannol a llunio adroddiadau misol manwl i'r aelodau. Mae'r Cynghorwyr y buom yn siarad â hwy yn gwerthfawrogi'r adroddiadau hyn. Fodd bynnag, ceir lle i adolygu'r adroddiadau monitro cyllideb hyn gyda golwg ar eu byrhau a'u gwneud yn haws i'w deall. Mae hyn hefyd yn wir yn achos rhai adroddiadau monitro perfformiad.

71 Dengys adroddiadau monitro'r gyllideb fod y rheolaeth ar y gyllideb yn gadarn ar y cyfan. Roedd cyfanswm y gwariant refeniw oddeutu £3 miliwn (neu un y cant) yn llai na'r gyllideb ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, mae rhai cyllidebau sy'n seiliedig ar y galw, fel cyllidebau ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir, yn arbennig o anwadal, gan newid yn sylweddol o'r naill fis i'r nesaf. Mae amrywiadau o'r fath yn amharu ar y gallu i ragweld alldro diwedd y flwyddyn, ac awgrymir bod angen rhagolygon gwell a rheolaeth well ar y galw ar lefel gwasanaeth.

72 Yn ôl Llythyr Archwilio Blynyddol y Cyngor (gweler Atodiad 4), a gyflwynwyd ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig ym mis Tachwedd 2014:

a mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau yn ystod 2013-14; ac

b mae'r Archwilydd Penodedig yn fodlon fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

## Bu'n rhaid defnyddio llawer o adnoddau er mwyn llwyddo i gwblhau cytundeb Statws Sengl ac Adolygiad Cyflog Cyfartal y Cyngor, felly bu cynnydd ar flaenoriaethau eraill ym maes Adnoddau Dynol yn arafach na'r bwriad

73 Mae gan y Cyngor dîm Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol (AD a DT) profiadol sydd wedi'i hen sefydlu i'w gynorthwyo i gyflawni ei Amcanion Gwella a'i agenda ar gyfer newid. Mae cyfres gynhwysfawr o bolisïau craidd ac ategol AD ar waith, ac mae'r tîm hefyd wedi llunio amrywiaeth o ddogfennau canllaw a phecynnau cymorth i gynorthwyo rheolwyr mewn meysydd fel gweithio ystwyth a chynllunio'r gweithlu.

74 Y Strategaeth Pobl 2009-2012, sydd wedi'i hymestyn hyd 2014, yw un o'r pedwar conglfaen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth glir, a oedd yn briodol wrth fabwysiadu'r strategaeth yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae newidiadau i flaenoriaethau ac, yn enwedig, i'r hinsawdd ariannol ers hynny wedi achosi i'r Cyngor golli golwg ar y strategaeth yn ei chyfanrwydd, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar brosiectau penodol ar draul prosiectau eraill.

75 Mae gofynion sylweddol y cytundeb Statws Sengl a'r Adolygiad Cyflog Cyfartal yn enwedig wedi lleihau'r capasiti o fewn y tîm AD a DT i gyflawni gweithgareddau eraill sy'n cyd-fynd â'r strategaeth. Mae'r Cyngor bellach bron wedi cwblhau'r gwaith cymhleth hwn a oedd yn drwm ar adnoddau ac yr oedd angen mawr amdano. Ar ôl dechrau araf, llwyddwyd i'w reoli'n dda. Fodd bynnag, roedd peth o'r gwaith arall a oedd angen ei wneud er mwyn gosod sylfeini i arbed arian ac effeithlonni yn y dyfodol yn hwyrach yn dechrau nag a oedd yn ddelfrydol. Gohiriwyd cyflwyno system arfarnu newydd i'r staff, er enghraifft, ac mae'r Cyngor wedi cael llai o lwyddiant nag a fwriadwyd yn lleihau ffigurau absenoldeb salwch. Mae cyfraddau absenoldeb wedi parhau'n gyson dros y tair blynedd diwethaf, gyda chyfartaledd o 10.5 o ddiwrnodiau fesul aelod amser llawn o staff, sydd gryn dipyn yn uwch na tharged y Cyngor o 9.6 diwrnod.

76 Mae gan y Cyngor berthynas dda â'r sectorau annibynnol a gwirfoddol ac mae'n cyfrannu'n dda, ochr yn ochr â'i bartneriaid, tuag at ddatblygu'r gweithlu o fewn y sefydliadau hynny. Yn sgil hyn, mae nifer cynyddol o staff o'r sector annibynnol a gwirfoddol wedi derbyn hyfforddiant ochr yn ochr â gweithlu'r Cyngor, er enghraifft ar ddarparu canllawiau ar ddiwygio budd-daliadau lles. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Choleg Cambria mewn menter ar y cyd sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i fusnesau newydd, gan gynnwys cymorth i ysgrifennu cynlluniau busnes, ymchwil y farchnad a chynllunio ariannol, gyda chefnogaeth gan fentoriaid profiadol.

77 Fodd bynnag, canfuom nad yw gwaith i gynllunio'r gweithlu, sy'n gysylltiedig â rheoli doniau, yn cael ei gyflawni mewn modd systematig ar draws y Cyngor. Mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn tueddu i ddigwydd mewn ymateb i newid, yn hytrach na thrwy ddarparu gwybodaeth ac arweiniad sy'n sail ar gyfer newid. Golyga hynny fod perygl i'r Cyngor golli sgiliau ac arbenigedd o blith ei staff ac na fydd digon o weithwyr addas i gymryd eu lle.

78 Ar ôl i'r model gweithredu newydd ddod i rym a phenodi'r Tîm Prif Swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da i ddatblygu Strategaeth Pobl tair blynedd newydd. Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr. Gallai'r ymgysylltu cynnar hwn helpu aelodau etholedig i berchnogi'r strategaeth, a chadw golwg ar ei nodau ehangach wrth iddynt fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r dyfodol. Serch hynny, mae cyflawni cynlluniau i wella gwasanaethau, neu eu cynnal o leiaf, ar yr un pryd â lleihau nifer y staff er mwyn gostwng costau i raddau sylweddol, yn gryn her.

79 Mae aelodau uwch o'r staff wedi ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaeth y tîm AD a DT yn y dyfodol ac yn cydnabod bod angen i'r model cyfredol aeddfedu dros oes y strategaeth newydd er mwyn creu mwy o gapasiti o fewn y tîm. Bydd y model yn y dyfodol ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gwasanaethau fod yn fwy hunangynhaliol nag yn y gorffennol wrth reoli eu staff, gan fanteisio ar gymorth arbenigol yr adran AD ar gyfer ymgynghori yn unig. Mae rhaglen hyfforddiant achrededig ac uchel ei barch i'r rheolwyr eisoes ar waith. Fe'i sefydlwyd drwy bartneriaeth â Choleg Cambria.

## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei dir a'i adeiladau, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng rheoli asedau a chynllunio gwariant refeniw yn ddigon amlwg

80 Mae'r Cyngor yn berchen ar asedau tir ac eiddo sylweddol sydd yn werth cyfanswm o oddeutu £1 biliwn, gan gynnwys ei stoc o oddeutu 7400 o dai cyngor. Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ac ymdeimlad clir o bwrpas ar gyfer ei asedau, wedi'i grynhoi fel a ganlyn: 'cael yr adeiladau cywir yn y lleoedd cywir i'r dibenion cywir'. Fodd bynnag, hyd yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull ad hoc, yn hytrach na dull systematig, o reoli rhai o'i asedau, gan gynnwys ei ddull o ymdrin â thir ac adeiladau nad oes eu hangen mwyach. Mae gan y Cyngor gynllun clir i gadw neu gael gwared â'i ystâd amaethyddol fechan a'i adeiladau gweithredol. Mae bellach yn adolygu'r opsiynau ar gyfer gweddill ei asedau eiddo. Yn eu plith ceir ystâd fasnachol lle mae'r gwaith trwsio a chynnal wedi ôl-gronni i raddau sylweddol, ac amrywiaeth helaeth o adeiladau a ddefnyddir i ddibenion cymunedol ledled y Sir.

81 Cafodd cynllun rheoli asedau'r Cyngor ei gynhyrchu yn 2010. Er ei bod hi'n bryd ei adnewyddu, mae'n dal i fod yn strategaeth gynhwysfawr wedi'i datblygu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion y mae'n eu disgrifio – fel trosglwyddo asedau sydd dros ben i'r gymuned, drwy drosglwyddiadau ased cymunedol[3] – wedi cael eu rhoi ar waith yn ddigon cyflym bob tro. Yn ystod 2013-14, ni wnaeth y Cyngor ond trosglwyddo dau ased cymunedol. Fodd bynnag, mae'n disgwyl cyflymu'r cynnydd yn ystod 2014-15 a thu hwnt drwy symleiddio a safoni'r broses drosglwyddo. Cafwyd llai o gynnydd na'r disgwyl hefyd gyda phrosiect Gweithio Ystwyth y Cyngor, sy'n helpu ei staff i weithio'n fwy hyblyg ac yn effeithlonni'r defnydd o arwynebedd llawr.

82 Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n llwyddiannus drwy gynllunio asedau ar y cyd â phartneriaid o'r sector cyhoeddus, er bod hyn fel arfer yn golygu cynlluniau ad hoc neu lle achubwyd ar gyfle, yn hytrach na chyd-gynllunio systematig hirdymor. Serch hynny, mae enghreifftiau diweddar o waith cynllunio asedau yn helpu'r Cyngor a'i bartneriaid i gyflawni sawl amcan gwella cyffredin, drwy gyd-leoli gwasanaethau rheng-flaen yng nghanol trefi. Mae'r Ganolfan Gyswllt yn y Fflint yn enghraifft dda o gynllunio asedau ar y cyd, ac yn cynnwys creu siop un stop, cydleoli'r orsaf heddlu leol, ailddatblygu hen safle'r orsaf heddlu, adleoli'r staff swyddfa gefn a chau adeilad swyddfeydd nad oedd ei angen mwyach. Mae'r trefniant hwn yn cefnogi ymdrechion y Cyngor i adfywio canol y dref, yn lleihau'r gofod a ddefnyddir gan y Cyngor i weithredu, yn rhoi canolfan leol i bartneriaid fel yr Adran Gwaith a Phensiynau gael cyflenwi eu gwasanaethau hwythau, a chyfleusterau desg boeth i staff y Cyngor sy'n gweithio yn y Fflint a'r cyffiniau.

83 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu wynebu wedi'i annog i gydnabod ei asedau tir ac eiddo fel adnodd corfforaethol strategol. Mae effaith y rhaglen gwaredu asedau ar raglen gyfalaf y Cyngor yn glir ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut y disgwylir i'r rheolaeth effeithiol ar asedau gyfrannu at Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Ar ben hynny, er bod ei berfformiad yn gysylltiedig â rheoli asedau yn cymharu'n ffafriol â chynghorau eraill ledled Cymru, nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r rheolaeth ar berfformiad mewn modd rhagweithiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, ceir rheolaeth gadarn ar brosiectau buddsoddi cyfalaf y Cyngor, ar lefel strategol ac o ran prosiectau unigol. Mae'r prosiectau hefyd yn cynnwys ymrwymiad clir tuag at gynaliadwyedd.

## Er sicrhau gwelliannau sylweddol mewn sawl maes, mae'r adran TGCh wedi'i chael hi'n anodd trefnu ei gwaith yn ôl blaenoriaeth, yn wyneb galw cynyddol

84 Fel ei Strategaeth Pobl, mae Strategaeth TGCh y Cyngor hefyd yn un o'r pedwar conglfaen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ceir tebygrwydd pellach gan fod y Strategaeth TGCh bellach wedi dyddio ac, yn bwysicach na hynny, mae newidiadau ers mabwysiadu'r strategaeth wedi achosi i'r Cyngor golli golwg ar nodau'r strategaeth yn eu cyfanrwydd, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar brosiectau, dangosyddion perfformiad a thargedau.

3 Trosglwyddo Asedau Cymunedol: trosglwyddo tir neu adeiladau i'w meddiannu neu eu rheoli gan sefydliad Gwirfoddol/o'r Sector Cymunedol neu gorff statudol. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i wneud cais am gymorth grant na fyddai ar gael i'r Cyngor. Mae'n golygu nad yw'r Cyngor yn gyfrifol mwyach am y gost o reoli a chynnal yr ased, a bod defnydd y gymuned o'r ased yn parhau, ac yn aml yn cynyddu oherwydd ymdeimlad mwy o 'berchnogaeth' leol.

85 Er hynny, bu datblygiadau sylweddol yn y defnydd o dechnoleg sydd wedi cyfrannu at well effeithlonrwydd ac amrywiaeth ehangach o ffyrdd i gwsmeriaid gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Mae gwefan y Cyngor yn llawer gwell o ran ei ymddangosiad ac o ran pa mor rhwydd yw hi i gyrchu gwasanaethau a dogfennau allweddol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi creu 'ap' ar gyfer ffonau clyfar, gan wella argaeledd ei wasanaethau ac ymateb i anghenion newidiol ei gwsmeriaid.

86 Mae'r Cyngor hefyd wedi manteisio ar dechnoleg mewn modd effeithiol er mwyn gwella mynediad at wasanaethai i'r cwsmeriaid hynny y mae'n well ganddynt gael sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Yn ychwanegol at brif ganolfan alwadau'r Cyngor, mae canolfannau cyswllt Sir y Fflint yn Nhreffynnon, Cei Connah a Bwcle yn cynnig 'siop un stop' hygyrch lle gall dinasyddion gwblhau'r rhan fwyaf o'u busnes gyda'r Cyngor.

87 Mae'r Strategaeth TGCh yn pwysleisio rôl y gwasanaeth TGCh mewn perthynas â'i gwsmeriaid mewnol o fewn y Cyngor. Llwyddwyd i arbed costau papur, er enghraifft, ar ôl ad-drefnu'r argraffwyr ar draws swyddfeydd y Cyngor, yn ogystal â chyflwyno i-Pads i'r cynghorwyr. Mae prif systemau ariannol y Cyngor yn addas i'r diben ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi'i chael hi'n anodd bodloni'r galw am newid, a chanlyniad hyn yw bod staff yn teimlo'n rhwystredig ynghylch rhai agweddau ar y gwasanaeth. Mae'r gwaith i uwchraddio a moderneiddio rhai systemau TGCh wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, er enghraifft, ac mae'r staff sy'n ymwneud â'r peilot 'gweithio ystwyth' wedi cael trafferthion yn cael mynediad at systemau TGCh y Cyngor o'u cartrefi.

88 Mae'r Cyngor wedi cydnabod y bu'n amharod yn y gorffennol i ddiffinio'r manteision a fwriedir yn sgil prosiectau technolegol graddfa fawr, boed y manteision hynny'n rhai ariannol neu'n fanteision eraill. Mae model gweithredu newydd y Cyngor yn cynnig cyfle sylweddol i wella'r agwedd hon. Mae hefyd yn cynnig cyfle i reoli'r gwasanaeth TGCh mewn modd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol clir, gan ddangos cysylltiadau amlycach nag o'r blaen â chynlluniau strategol y Cyngor ar gyfer ei staff, ei dir a'i adeiladau a'i gyllid.

## Cafwyd cynnydd da gan y Cyngor yn erbyn y blaenoriaethau gwella y buom yn edrych arnynt, ond rhywfaint o ddirywiad yn ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol

89 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor a'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei berfformiad. Rhoddir trosolwg o berfformiad yn 2013-14 yn ogystal ag asesiad manylach o gynnydd yn erbyn detholiad o Amcanion Gwella'r Cyngor. Lle bo'n bosibl, mae'r arfarniadau hyn yn defnyddio gwybodaeth fwy cyfredol na data 2013-14. Cynhwysir hefyd grynodeb o Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14, a luniwyd gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) (AGGCC), ac asesiad Comisiynydd y Gymraeg o gynnydd yn Sir y Fflint.

### Mae ysgolion Sir y Fflint yn parhau i gynnig gwerth da am arian ac mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau mwy o effeithlonni o fewn y system addysg

90 Roedd canlyniadau ysgolion cynradd Sir y Fflint yn 2014 yn cadarnhau'r gwelliannau a gafwyd y flwyddyn gynt. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru, mae gan y cyhoedd yn Sir y Fflint fwy o hyder yn y gwasanaeth addysg lleol nag yn unrhyw gyngor arall yng Nghymru.

91 Roedd y gyfran o ddysgwyr saith oed a gyrhaeddodd y safonau disgwyliedig ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, tra bo'r gyfran o blant 11 oed a gyrhaeddodd y safonau disgwyliedig yr un peth â chyfartaledd Cymru, sef 84.5 y cant. Mewn ysgolion uwchradd, cyflawnodd 84.3 y cant o ddysgwyr 14 oed y dangosydd pynciau craidd[4], y pumed gyfran uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 4, cafwyd rhywfaint o ostyngiad mewn perfformiad o gymharu â 2013. Er hynny, roedd y gyfran o ddysgwyr 16 oed a enillodd bump neu fwy o raddau TGAU da, a oedd yn cynnwys y pynciau pwysig, sef mathemateg, Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg, yn parhau i fod yn llawer uwch na'r cyfartaledd, ac yn drydydd uchaf yng Nghymru.

92 Mae cymhwysedd am brydau ysgol am ddim – ffordd o fesur lefelau amddifadedd – gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Sir y Fflint. Byddem felly'n disgwyl i berfformiad ysgolion yn Sir y Fflint fod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag roedd perfformiad mewn gormod o ysgolion cynradd ac uwchradd yn anffafriol o'i gymharu ag ysgolion yn rhannau eraill o Gymru a chanddynt lefelau tebyg o amddifadedd.

93 Adroddwyd y llynedd y cafwyd gostyngiad cyson yn nifer y dysgwyr a adawodd yr ysgol yn 16 oed yn Sir y Fflint ac nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Fodd bynnag, yn 2013 (y flwyddyn ddiweddaraf y ceir data ar ei chyfer[5]), cynyddodd y gyfran yn sydyn i 3.6 y cant, nad oedd ond ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ymhlith y gorau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn parhau i fod yn ffafriol o gymharu â chyfartaledd Cymru.

4 Bydd disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd pan fyddant yn cyrraedd lefel ddisgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer eu hoedran mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg.
5 *Gyrfa Cymru*, http://www.careerswales.com/prof/server.php?show=nav.3850&outputLang=Tr1

94 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau cyflenwad digonol o leoedd mewn ysgolion mewn modd effeithlon. Drwy uno ysgolion babanod ac iau, llwyddodd y Cyngor i leihau nifer yr ysgolion cynradd y mae'n eu cynnal o 71 i 68 yn ystod 2013. Serch hynny, cafwyd rhywfaint o gynnydd yng nghapasiti systemau'r ysgolion cynradd ac uwchradd. Ym mis Ionawr 2014, roedd oddeutu 4,300 o leoedd dros ben yn ysgolion Sir y Fflint (15.9 y cant o'r cyfanswm) wedi'u gwasgaru ar draws yr 80 o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r capasiti dros ben yn parhau i fod yn is yn Sir y Fflint na chyfartaledd Cymru o 17 y cant, ond caewyd y bwlch yn ystod 2013. Mae gan dri deg y cant o ysgolion Sir y Fflint nifer sylweddol o leoedd dros ben, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru, o gymharu â 24.7 y cant ar draws Cymru.

95 Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio ei ystâd o ysgolion ac yn cydnabod y potensial am fwy o effeithlonni. Mae cynlluniau i leoli ysgolion cynradd ac uwchradd ar un safle yn Nhreffynnon yn arloesol ac yn debygol o wella'n sylweddol yr amgylchedd gwaith i ddysgwyr a staff. Yn sgil pryderon gochelgar ynghylch hyfywedd ysgol uwchradd arall yn y dyfodol, mae cynlluniau i ailwampio'r ysgol wedi'u gohirio.

96 Yn debyg i'r blynyddoedd cynt, mae cost system addysg Sir y Fflint yn ei chyfanrwydd yn dal i fod yn llawer is na chost system addysg y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Ar gyfer 2014-15, pennodd y Cyngor gyllideb addysg (ac eithrio grantiau penodol) o £109.6 miliwn, sydd gyfwerth â £4,781 fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd ar draws Cymru o £4,939 fesul disgybl. Er bod meysydd i'w gwella, mae'r canlyniadau a amlinellir uchod, sy'n gadarnhaol ar y cyfan, yn awgrymu bod y gwasanaeth ysgolion yn parhau i gynnig gwerth da am arian.

97 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei fformiwla ariannu ysgolion a gweithredu'r newidiadau o ganlyniad i hynny. Yn ôl cyfrifiadau Llywodraeth Cymru[6], dirprwyodd y Cyngor 81.3 y cant o gyllid perthnasol i'w ysgolion yn 2014-15. Mae'r gyfradd hon ychydig yn is na'r gyfradd mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i adolygu gwasanaethau cymorth y mae'n eu darparu i'r ysgolion, a'r dull o'u hariannu. Mae potensial i'r broses adolygu hon gynyddu lefel y cyllid a ddirprwyir a chynyddu atebolrwydd ysgolion am gaffael y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt.

98 Nodwyd yn adroddiad gwella blynyddol y llynedd fod y Cyngor yn gwario mwy fesul disgybl nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru er mwyn lleoli disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion y tu allan i Sir y Fflint. Cafwyd gostyngiad sylweddol i'r gwariant addysg a gynlluniwyd ar gyfer yr elfen hon, o bron i £3.5 miliwn yn 2013-14 i £2.5 miliwn yn 2014-15, ar ôl newid trefniadau comisiynu. Er gwaethaf y gostyngiad mawr, mae'r gyllideb hon yn dal i gynrychioli £110 fesul disgybl wedi'i wasgaru ar draws holl ddisgyblion Sir y Fflint, sef y gwariant uchaf ond un o'i fath a gynlluniwyd yng Nghymru. Ar ben hynny, adroddodd y Cyngor ar ddiwedd mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd ei fod eisoes yn rhagweld gorwariant o £227,000 ar gyllidebau ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir.

6 *Bwletin Ystadegol 49/2014,* Gwasanaethau Dadansoddol a Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

99 Dengys papur a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Medi 2014 fod y Cyngor wedi gwario cyfanswm o £6.89 miliwn ar leoliadau y tu allan i'r sir yn 2013-14 ar draws cyllidebau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol – tua £726,000 dros y gyllideb. Mae'r papur yn rhoi sicrwydd i aelodau'r pwyllgor fod dull y Cyngor o gaffael lleoliadau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r data yn y papur ar nifer y lleoliadau a gefnogir gan y Cyngor yn anodd ei ddehongli. Nid yw ychwaith yn cynnig ymdriniaeth digon cynhwysfawr â'r mater yng nghyd-destun ehangach darpariaeth Sir y Fflint ei hun o ysgolion arbennig.

100 Rydym yn cydnabod ei bod hi'n anochel y bydd lefel y gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir ychydig yn gyfnewidiol. Fodd bynnag, mae maint y gwahaniaeth o'r naill fis i'r nesaf yn tanseilio rheolaeth y Cyngor ar ei gyllideb. Mae'r amrywiadau mynych hefyd yn awgrymu y gellid gwneud mwy i wella cywirdeb wrth gynllunio a rheoli'r cyllidebau hyn.

## Bu cynnydd da yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ond bu perfformiad y gwasanaethau plant yn llai cyson yn wyneb galw cynyddol

101 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14. Mae'r gwerthusiad hwn yn seiliedig ar:

- a wybodaeth a gyflwynwyd gan y cyngor;
- b data perfformiad;
- c trafodaethau mewn cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol ag uwch swyddogion;
- ch arolygiadau, adolygiadau ac ymweliadau safle;
- d cudd-wybodaeth yn sgil cwynion a phryderon;
- dd gwybodaeth gan arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill; ac
- e arolygiadau o wasanaethau rheoledig a gomisiynwyd gan y cyngor.

102 Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael yn http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/141031flintshireen.pdf. Rhoddir crynodeb o asesiad AGGCC o berfformiad y Cyngor isod. Defnyddir hefyd agweddau eraill ar eu gwerthusiad mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

103 Mae mwy o oedolion yn Sir y Fflint yn defnyddio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal, adsefydlu ac ail-alluogi, gyda chynnydd o 46 y cant yn ystod y flwyddyn yn nifer yr oedolion sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn adrodd bod ymhell dros hanner y bobl a ddefnyddiodd ei wasanaethau ail-alluogi wedi adennill eu hannibyniaeth yn llawn, ac nad oes angen unrhyw wasanaethau pellach arnynt mwyach.

104 Mae mentrau fel Gwirio Iechyd a Byw'n Dda yn cefnogi pwyslais parhaus y Cyngor ar hyrwyddo annibyniaeth a lles. Mae'r cynnydd i'r buddsoddiad mewn gwaith partneriaeth yn arwain yn gynyddol at ddatblygu cyfres o wasanaethau sy'n cefnogi mwy o bobl yn y gymuned, a llai o bobl mewn gofal preswyl. Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth fonitro unrhyw ddiffygion yn ansawdd y gofal y mae'n ei gomisiynu ac wrth geisio unioni hynny ar unwaith.

105 Bydd pobl sy'n cysylltu â'r Cyngor yn cael ymateb prydlon, ac er y cafwyd peth oedi wrth gynorthwyo pobl i adael yr ysbyty pan yr oeddent yn barod i wneud hynny, mae perfformiad y Cyngor yn dal i fod yn well na chyfartaledd Cymru. Mae adolygiadau amserol wedi cael eu cynnal o gynlluniau gofal pob defnyddiwr gwasanaeth, a pherfformiad Sir y Fflint yw'r gorau yng Nghymru ar y dangosydd hwn. Mae adolygiadau amserol yn galluogi'r Cyngor i ymateb yn effeithiol i ofynion newidiol, gan wella ansawdd y gwasanaeth yn ogystal â'i effeithiolrwydd.

106 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo gynyddu ei allu i adnabod a chefnogi cynhalwyr. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ond nid yw wedi dwyn ffrwyth eto. Mae'r Cyngor wedi comisiynu Gwasanaeth Gwybodaeth Cynhalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

107 Cynyddodd y galw am wasanaethau plant yn sylweddol yn ystod 2013-14, gyda thwf o dros 70 y cant yn ystod y flwyddyn yn nifer y ceisiadau asesu a adroddwyd. Cafwyd gostyngiad o 13 y cant mewn ailatgyfeiriadau, ac mae'r Cyngor wedi cynnal cyfradd ymateb amserol, gan wneud penderfyniad o fewn diwrnod gwaith ynghylch 99 y cant o atgyfeiriadau.

108 Cafwyd cynnydd sydyn hefyd yn y niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant, o 58 yn 2012-13 i 133 yn 2013-14. Amharodd hyn ar allu'r Cyngor i ddarparu'r un lefel o gymorth ag o'r blaen, a gwelwyd y gyfradd o gynadleddau cychwynnol achosion amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn y raddfa amser ofynnol yn gostwng o 97 i 89 y cant.

109 Arweiniodd y cynnydd mewn atgyfeiriadau at gynnydd yn nifer yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd, ac at gynnydd o 40 y cant yn nifer yr asesiadau craidd. Cafodd mwy o blant a phobl ifanc eu gweld gan weithwyr cymdeithasol ar eu pen eu hunain nag o'r blaen, gan roi mwy o gyfle iddynt fynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau. Fodd bynnag, canfu AGGCC nad oedd rhai asesiadau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod sawl asesiad risg cysylltiedig yn anghyflawn.

110 Cafodd llai o adolygiadau o anghenion plant sy'n derbyn gofal eu cynnal o fewn y raddfa amser ofynnol nag yn 2012-13, er gwaethaf gostyngiad bychan yn nifer yr adolygiadau yr oedd yn angen eu cwblhau. Cafwyd gostyngiad mwy fyth yn nifer yr adolygiadau o blant mewn angen a gwblhawyd ar amser, ac ychydig mwy na hanner y rheiny a gyrhaeddai'r safon ofynnol. Hon oedd y gyfradd isaf yng Nghymru.

111 Er bod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yn ystod 2013-14, cafwyd gostyngiad i'r nifer a gafodd eu lleoli droeon, ac yn hyn o beth mae perfformiad y Cyngor gyda'r gorau yng Nghymru. Cynhaliodd y Cyngor yr holl ymweliadau gofynnol â'r plant a'r bobl ifanc y mae'n gofalu amdanynt, ond dirywiodd amseroldeb yr ymweliadau hyn. Mae'r gyfran o blant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae cyrhaeddiad addysgol plant 16 oed sy'n derbyn gofal yn parhau i godi, ond ceir deilliannau cymysg ymhlith oedolion ifanc 19 oed fu gynt yn derbyn gofal.

112 Roedd arolygiad AGGCC o Wasanaethau Maeth y Cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan. Canfu'r arolygiad fod tîm sefydlog a chyson yn darparu cymorth effeithiol, ynghyd â phanel maeth wedi'i drefnu'n dda.

113 Wrth gyfeirio at bartneriaeth a chydweithio, barnodd AGGCC fod y Cyngor yn fwyfwy realistig ynglŷn â'r her o orfod cyflenwi gwasanaethau gwell yng nghyd-destun gostyngiadau ariannol. Mae hyn wedi cyflymu'r ymgyrch i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, gwella gwaith partneriaeth, gwasanaethau mwy integredig ac ymrwymiad cynyddol tuag at gomisiynu'n rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mwy mewn dull ymyrraeth gynnar, sy'n golygu gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r cynnydd i'r buddsoddiad mewn gwaith partneriaeth yn arwain yn gynyddol at ddatblygu cyfres o wasanaethau sy'n cefnogi mwy o bobl yn y gymuned, a llai o bobl mewn gofal preswyl.

## Ar y cyfan, cafwyd rhywfaint o ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, ond rhai enghreifftiau o berfformiad cryf ar draws sawl maes gwasanaeth

114 Cynhaliom adolygiad o berfformiad y Cyngor yn 2013-14 yn erbyn cyfartaledd Cymru mewn casgliad o 44 o ddangosyddion cenedlaethol[7]. Yn seiliedig ar y data hwn, cafwyd perfformiad cryf mewn sawl maes, ond dirywiodd perfformiad mewn meysydd eraill. Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi dirywio rhywfaint. Er enghraifft:

- a un dangosydd addysg allweddol oedd y gorau yng Nghymru yn 2013, gyda 62.2 y cant o ddisgyblion yn ennill pump neu fwy o raddau TGAU da yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg;
- b dim ond 4.3 y cant o'r ffyrdd yn Sir y Fflint oedd mewn cyflwr gwael, y gyfran isaf yng Nghymru;
- c cyrhaeddodd perfformiad y Cyngor y chwartel uchaf mewn 13 o ddangosyddion cenedlaethol – ychydig yn llai na 2012-13;
- ch roedd perfformiad yn erbyn 23 o'r 44 o ddangosyddion yn gyfwerth neu'n uwch na chyfartaledd Cymru – rhywfaint o ddirywiad o gymharu â 28 yn 2012-13; a
- d dirywiodd perfformiad yn Sir y Fflint yn erbyn bron i hanner y dangosyddion cenedlaethol o gymharu â 2012-13.

7 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a 24 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, y mae 10 ohonynt yn cael eu cyfrif yn ddangosyddion a hefyd yn fesurau.

115 Roedd Cynllun Gwella 2013-14 y Cyngor yn cynnwys wyth blaenoriaeth ar gyfer gwella a 98 o is-flaenoriaethau. Adroddodd y Cyngor y cafwyd cynnydd da yn erbyn ychydig dros hanner (56 y cant) yr is-flaenoriaethau a chynnydd boddhaol yn erbyn 42 y cant ohonynt. Adroddodd hefyd mai dim ond dau y cant oedd wedi gwneud cynnydd llai na boddhaol yn ystod 2013-14.

116 Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl Cymru ynghylch amrywiaeth o faterion, gan gynnwys iechyd, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn arolwg 2013-14, cytunodd 61 y cant o'r ymatebwyr fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Roedd hyn yn well na chyfartaledd Cymru, ac yn gosod y Cyngor yn seithfed ymhlith 22 o awdurdodau unedol Cymru. Dangosai'r un arolwg fod 48 y cant o breswylwyr hefyd o'r farn fod y Cyngor yn dda am roi gwybod iddynt sut mae'n perfformio.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth weithredu mentrau i helpu i liniaru effaith y toriadau ar fudd-daliadau lles ac i leihau tlodi tanwydd

117 Gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn ystod 2013-14 yn erbyn ei flaenoriaeth gwella i gynyddu ymdrechion lleol er mwyn gwarchod pobl leol rhag tlodi. Mae'r is-flaenoriaethau sy'n sail i'r flaenoriaeth gwella hon yn canolbwyntio ar liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd neu ragori ar bob un o'i dargedau ar gyfer 2013-14 a oedd yn gysylltiedig â'r is-flaenoriaethau hyn.

118 Daeth newid sylweddol i'r dull o weinyddu a dosbarthu budd-daliadau yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, a bydd hyn yn cael cryn effaith ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU raglen ddiwygio, a oedd yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Mae cynlluniau'r Llywodraeth yn cynnwys newidiadau i Fudd-dal Tai sy'n anelu i sicrhau gostyngiad o oddeutu £2.3 biliwn mewn gwariant blynyddol. Bydd y newidiadau hyn yn golygu bod miliynau o aelwydydd ym Mhrydain yn derbyn llai o arian drwy fudd-daliadau, ac yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddefnyddio'u harian ac ymdopi o ddydd i ddydd.

119 Dyma grynodeb o'r newidiadau allweddol a gyflwynwyd yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012:

a cyflwyno meini prawf maint ar gyfer y sector rhentu preifat, gan gyfyngu ar Fudd-daliadau Tai (ac elfen costau tai Credyd Cynhwysol yn ddiweddarach) i deuluoedd o oedran gwaith sy'n tanfeddiannu eu cartref;

b uchafswm budd-dal ar gyfer aelwydydd sy'n gorfodi uchafswm i'r budd-dal y gall teuluoedd o oedran gwaith sydd heb waith ei hawlio;

c Credyd Cynhwysol, sy'n cyflwyno un budd-dal integredig misol ar gyfer teuluoedd o oedran gwaith, sydd mewn gwaith, ac sydd heb waith. Telir y budd-dal yn uniongyrchol i'r hawlwyr; a

ch newidiadau a thoriadau i'r gefnogaeth ar gyfer y Dreth Gyngor, gan ddatganoli pŵer i awdurdodau lleol ddylunio a gweinyddu'r budd-dal hwn.

120 Mae gan y Cyngor gynllun cadarn ar waith i fynd i'r afael ag effaith diwygio lles, ac mae wedi sefydlu Partneriaeth Trechu Tlodi Sir y Fflint i ystyried ac ymateb i'r materion. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys amrywiaeth eang a phriodol o randdeiliaid er mwyn sicrhau ymdriniaeth lawn â'r holl faterion, gan gynnwys sefydliadau yr effeithir arnynt gan ddiwygio lles, a rhai sy'n gallu chwarae rôl gadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â'r effaith hon. Mae'r bartneriaeth yn monitro ei pherfformiad ac yn rhoi diweddariadau sy'n cyfrannu at gynlluniau gweithredu'r Cyngor.

121 Mae cynlluniau gweithredu'r Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar liniaru effaith ariannol a gweithredol y diwygiadau ar unigolion ac asiantaethau fel cymdeithasau tai lleol. Yn sail ar gyfer cynllunio, ceir data a gasglwyd gan denantiaid er mwyn deall yr effaith y mae'r diwygiadau wedi'i chael a cheisio lliniaru'r effaith honno. Mewn sawl achos, mae'r data a gafwyd yn gynhwysfawr a'r Cyngor wedi gallu defnyddio'r broses er mwyn helpu i roi cyngor a chymorth wedi'i bersonoli'n fwy, fel cwblhau offeryn cyllidebu, rhoi cyngor ar filiau cyfleustodau, a gwirio i sicrhau bod yr holl fudd-daliadau priodol yn cael eu hawlio.

122 Mae gan y Cyngor gyfres gynhwysfawr o ddangosyddion lleol i fesur effaith ei waith ei hun, a gwaith ei bartneriaid ym mhob maes diwygio lles. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gallu dangos eu bod wedi cynhyrchu incwm ychwanegol gwerth £2.3 miliwn ar ffurf budd-dal lles a chredyd treth i breswylwyr yn 2013-14, gan roi hwb i incwm a phŵer gwario o fewn yr economi leol a chefnogi'r agenda trechu tlodi mewn modd cadarnhaol.

123 Mae'r diwygiadau lles yn berthnasol i lawer o wahanol wasanaethau Cyngor ac yn effeithio ar amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion mewn llawer o wahanol ffyrdd. I fod yn effeithiol, felly, mae angen i'r Cyngor sicrhau arweiniad clir o ran diwygio lles, gan gynnwys trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd priodol i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau, galluogi craffu effeithiol a dwyn gwasanaethau a'r Cabinet i gyfrif. Canfuom fod swyddogion a chynghorwyr yn Sir y Fflint yn llwyr ymwybodol o'r trefniadau monitro perfformiad ar gyfer diwygio lles, a'u bod yn deall yn glir pwy sy'n gyfrifol am y meysydd gweithgarwch amrywiol. Bydd diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgorau craffu yn rhoi cyfle i'r aelodau oruchwylio a herio perfformiad. Canfuom hefyd fod y Cyngor wedi hyfforddi staff ar draws ystod eang a phriodol o wasanaethau er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r prif newidiadau i fudd-daliadau, ac effaith hynny ar y gymuned ehangach.

124 Er gwaethaf y cynnydd da wrth liniaru effeithiau tlodi, prin yw'r cyfeiriadau at berfformiad gwasanaeth y Cynllun Budd-dal Tai a Gostwng y Dreth Gyngor ym mesurau perfformiad corfforaethol y Cyngor. Dyma wasanaeth allweddol sy'n helpu dros 12,000 o aelwydydd incwm isel yn Sir y Fflint i dalu eu rhent a'u Treth Gyngor. Gallai asesiad o safon gweinyddu'r Cynllun Budd-dal Tai a Gostwng y Dreth Gyngor sicrhau gwelliant pellach i werthusiad cyffredinol y Cyngor o'i berfformiad wrth drechu tlodi ymhlith preswylwyr Sir y Fflint.

125 Yn 2013-14, cafwyd dirywiad yng nghyflymder prosesu hawliadau Budd-dal Tai ac yng nghywirdeb asesiadau o gymharu â'r flwyddyn gynt. Cafwyd cynnydd i'r amser cyfartalog a gymerir gan y Cyngor i brosesu hawliadau newydd o gyfartaledd o 16 diwrnod yn 2012-13 i 20 diwrnod yn 2013-14, er na chafwyd unrhyw gynnydd o bwys ym maint y llwyth achosion,  ac er bod nifer yr hawliadau newydd wedi gostwng gyda lefelau diweithdra. Yn rhannol o ganlyniad i brosesau mwy llym i nodi gwallau, dengys adroddiadau Archwilio Mewnol fod cywirdeb wrth brosesu hawliadau yn Sir y Fflint wedi gostwng i 60 y cant.

126 Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau cymaint o gymorth ag sy'n bosibl gan Lywodraeth y DU i bobl sy'n wynebu diffyg yn eu Budd-dal Tai. Gall aelwydydd a chanddynt ddiffyg rhwng y budd-dal y gallant ei hawlio a'u rhent wneud cais i'r Cyngor am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi hyrwyddo'r taliadau hyn yn weithredol fel ffynhonnell bwysig o gyllid i leihau effaith y meini prawf maint ar gyfer tai cymdeithasol. Mae Llywodraeth y DU yn dyrannu cyllid yn ôl fformiwla. Bydd Cynghorau sy'n dewis defnyddio eu cyllid eu hunain i ychwanegu at ddyraniad Llywodraeth y DU yn derbyn dyraniad uwch y flwyddyn ganlynol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gynghorau'r DU, dewisodd y Cyngor wario mwy na'i ddyraniad yn 2012-13, felly derbyniodd £148,000 yn ychwanegol i'w ddyraniad yn 2013-14, a oedd yn ei alluogi i helpu mwy o bobl a wynebai ddiffyg yn eu rhent.

127 Ail is-flaenoriaeth y Cyngor oedd trechu tlodi tanwydd. Mae'r Cyngor wedi cyrraedd neu ragori ar ei holl dargedau gwasanaeth ar gyfer 2013-14 yn gysylltiedig â'r gwaith hwn, ar ôl datblygu cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion lleol i fesur effaith ei waith.

128 Bu'r Cyngor yn helpu preswylwyr yn y sector preifat, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos (Cynghorau Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy) a chymdeithasau tai i lansio fframwaith Rhwymedigaeth Cwmni Ynni rhanbarthol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar waith inswleiddio waliau allanol tai cymdeithasol. Gwnaed gwaith inswleiddio neu wresogi ar gyfanswm o 104 o gartrefi perchen-feddianwyr neu gartrefi rhentu preifat. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd y Gronfa Cynhesrwydd Fforddiadwy drwy'r Strategaeth Adnewyddu Tai, gan arwain at well inswleiddio yn 87 o gartrefi'r Cyngor. Fel cyfanswm, sicrhaodd y Cyngor dros £1 miliwn o gyllid grant allanol yn 2013-14 ar gyfer cynlluniau effeithlonni tanwydd.

129 Mae gan y Cyngor raglen uchelgeisiol ar gyfer 2014-15, gan gynnwys prosiectau mewnlenwi nwy graddfa fawr yn Aston a Mostyn fydd yn helpu tenantiaid Cyngor ar 223 o aelwydydd i gael gwres nwy rhatach. Gallai' prosiectau hefyd helpu 700 o aelwydydd eraill sector preifat sy'n byw yn nalgylch y gwaith nwy.

130 Mae cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch sut i osgoi tlodi tanwydd yn faes pwysig yng ngwaith y Cyngor i ymdrin â thlodi tanwydd. Mae Tîm Arbed Ynni'r Cartref yn arwain Partneriaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy Sir y Fflint, gan roi hyfforddiant a chyngor proffesiynol i bobl ynghylch arferion effeithlonrwydd ynni da. Mae'r tîm yn cynghori tenantiaid a'r cyhoedd ynglŷn â'r grantiau sydd ar gael, sut i gael y fargen orau gan gyflenwyr ynni, a'r gwaith gwella mwyaf effeithiol y gellir ei wneud ar eiddo er mwyn lleihau biliau tanwydd a helpu i gadw cartrefi'n gynnes. Mae Tîm Ynni'r Cartref hefyd yn cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant ac addysg i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd er mwyn codi proffil mesurau effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r defnydd ohonynt.

## Mae perfformiad y Cyngor i atal digartrefedd wedi gwella, ond ychydig o gynnydd a gafwyd o ran yr amser y bydd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro

131 Mae maes arall o dan y flaenoriaeth gwella ar gyfer trechu tlodi yn canolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddigartref. Fel yr adroddwyd gennym y llynedd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol, mae cynghorau ledled Cymru yn derbyn llai o deuluoedd fel rhai digartref. Mae'r sefyllfa yn Sir y Fflint yn parhau i adlewyrchu'r duedd hon, er gwaethaf cynnydd yn nifer y bobl a geisiodd gymorth ers 2012. Yn ystod 2013-14, roedd nifer y teuluoedd a dderbyniwyd yn ddigartref gan y Cyngor, a chanddynt angen blaenoriaethol, unwaith eto ymhlith yr isaf yng Nghymru. Ar gyfartaledd, roedd llai na 50 o deuluoedd digartref yn y Sir mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn.

132 Yn 2013-14, cafwyd gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran gweithredu i atal digartrefedd. Helpodd y Cyngor 85 y cant o deuluoedd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref rhag dod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, o gymharu ag 83 y cant yn 2012-13. Yn ôl adroddiadau'r Cyngor yn ystod 2014, mae perfformiad wedi parhau i wella ers hynny.

133 Mae'r Cyngor yn dyrannu eiddo Cyngor neu sector preifat hunangynhaliol i deuluoedd digartref, tra bydd yn cael hyd i dai cymdeithasol addas i'w cartrefu'n barhaol a chyflawni'r ddyletswydd digartrefedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd i'r teulu aros mewn llety dros dro a chael y llety hwnnw wedi'i ddyrannu iddynt yn barhaol, er mwyn osgoi'r drafferth o orfod symud eto.

134 Mae'r Cyngor wedi gosod targed heriol iddo'i hun, sef na fydd yr un unigolyn digartref mewn llety dros dro am gyfnod hwy na 12 mis. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn yr amser cyfartalog y treuliodd teuluoedd digartref mewn llety dros dro yn Sir y Fflint o 208 o ddiwrnodiau yn 2011-12 i 276 o ddiwrnodiau yn 2013-14. Yn ôl y Cyngor, mae peth o'r dirywiad hwn mewn perfformiad yn deillio o gynnydd yn y galw am gartrefi a chanddynt lai o ystafelloedd gwely ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol presennol. Mae'r tenantiaid hyn yn awyddus i osgoi ôl-daliadau rhent yn sgil gostwng eu budd-dal tai oherwydd y 'dreth ystafelloedd gwely', fel y'i gelwir. Mae hyn yn lleihau'r cyflenwad o gartrefi llai, y ceir galw amdanynt hefyd ymhlith teuluoedd digartref.

135 Yn rhan o'i strategaeth i drechu digartrefedd, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy o ansawdd da. Gosododd darged i gwblhau 740 o gartrefi newydd fforddiadwy rhwng 2012 a 2017, gan gynnwys 170 o gartrefi newydd yn lle'r 214 o fflatiau deulawr a gafodd eu dymchwel. Mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn ar ôl cwblhau cynllun tai gofal ychwanegol yn ddiweddar, ac ar ôl diwygio Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Ar ôl ei weithredu ym mis Ebrill 2015, bydd y cymhorthdal hwn yn galluogi'r Cyngor i fenthyca arian er mwyn adeiladu tai Cyngor newydd. Yn ychwanegol at ei ymdrechion ei hun i ddarparu cartrefi fforddiadwy, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn canfod cyfleoedd i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y dyfodol. Yn arbennig, sefydlodd y Cyngor Gwmni Tai, Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru, yn ddiweddar, i'w helpu i gyrraedd targedau ei strategaeth dai leol ar draws ystod o ddeiliadaethau.

136 Mae rhaglen gwella tai'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru[8] (SATC) erbyn 2020. Er mai ond 24 o gartrefi Cyngor (o gyfanswm o fwy na 7400 o gartrefi) yn Sir y Fflint a oedd yn cydymffurfio'n llwyr â SATC erbyn diwedd 2013-14, mae perfformiad y Cyngor yn erbyn elfennau unigol o'r rhaglen gwella tai wedi parhau i wella. Mae llawer mwy o gartrefi'n cydymffurfio'n rhannol oherwydd y gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau, ac mae hyn yn galluogi llawer o denantiaid i elwa ar gartrefi mwy cyffyrddus i fyw ynddynt a rhatach i'w rhedeg. Er enghraifft, erbyn diwedd 2013-14, yr oedd 53 y cant o'r ceginau, 50 y cant o'r ystafelloedd ymolchi, 78 y cant o'r systemau gwresogi a 71 y cant o'r ffenestri yn holl stoc tai'r Cyngor yn bodloni'r safon.

137 Mae'r Cyngor wedi gweithio'n dda gyda'i bartneriaid yn y BGLl i hyrwyddo trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth ac atgyfeirio rhwng partneriaid, a thargedau gwasanaethau'n well yn sgil hynny. Er enghraifft, mae rhaglen gofal a thrwsio sy'n darparu gwasanaethau i bobl dros 60 oed ac i oedolion ag anableddau wedi cynyddu nifer y cleientiaid sy'n gallu byw'n annibynnol. Enghraifft arall yw targedu gwiriadau diogelwch tân mewn cartrefi a gosod larymau mwg yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella gallu ei staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ond mae'n cydnabod nad yw'r cynnydd yn gyson ar draws y Cyngor cyfan

138 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud wrthym y cafwyd cynnydd bach yn nifer y staff ar reng flaen y Cyngor sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y staff a oedd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg ers 2012-13, ond mae'r nifer yn parhau i fod yn is na'r nifer a dderbyniodd hyfforddiant yn 2011-12 a 2010-11. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr aelodau staff a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu cyfan wedi cwblhau hunanasesiad o allu yn y Gymraeg erbyn mis Mawrth 2014, ond nid yw hyn wedi'i gyflawni eto.

8 I gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n rhaid i dai cymdeithasol fodloni amrywiaeth o feini prawf. Er enghraifft, mae'n rhaid i gartrefi fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da, wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran ynni ac wedi'u hinswleiddio'n dda. Mae'n rhaid iddynt hefyd gynnwys cegin ac ystafell ymolchi fodern. Rhaid i bob elfen gyrraedd y safon isaf ofynnol er mwyn ystyried bod tŷ yn cydymffurfio â SATC.

139 Mae’r Cyngor wedi cyflwyno system newydd er mwyn rheoli hyfforddiant yn fwy effeithiol. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd adolygiad o’r modd y darperir hyfforddiant Cymraeg, mewn ymgynghoriad â Menter Iaith Sir y Fflint. O ganlyniad i hyn, bydd rhaglen ddwys newydd yn cael ei chyflwyno i ddechreuwyr, wedi’i chefnogi gan sesiynau ymarfer sgwrsio a dysgu ar-lein. Cafodd Hyrwyddwyr y Gymraeg eu penodi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol, cyn cyflwyno model gweithredu newydd y Cyngor. Y nod oedd pennu hyrwyddwyr eraill drwy’r holl Gyngor a datblygu Fforwm Hyrwyddwyr y Gymraeg yn ystod 2014-15.

140 Mae’r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnwys anghenion datblygu’r Gymraeg yn rhan o’i system arfarnu newydd. Dyma nodwedd gadarnhaol a allai gynorthwyo’r Cyngor i gyrraedd ei Safonau ar gyfer y Gymraeg.

## Mae hanes y Cyngor yn awgrymu ei fod yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r heriau mewnol a'r heriau allanol sylweddol y mae'n eu wynebu, ac o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16

141 Yn yr adran olaf hon o'r adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ei farn ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y flwyddyn sydd i ddod, yn unol â gofynion y Mesur.

142 Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau blaenorol yn yr adroddiad hwn. Yn arbennig, rydym wedi adrodd y canlynol:

- a cafwyd cynnydd da gan y Cyngor yn erbyn y blaenoriaethau gwella y buom yn edrych arnynt, ond rhywfaint o ddirywiad yn ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol;
- b er gwaethaf rhai cryfderau a meysydd lle cafwyd cynnydd, nid yw rhai agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau nac o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor; ac
- c mae'r Cyngor wedi cymryd camau bras ymlaen o ran ei ddefnydd o adnoddau, ond mae angen iddo bellach gydgysylltu'r elfennau mewn modd mwy systematig yn wyneb heriau ariannol y dyfodol.

143 Wrth ddod i'n casgliad, rydym hefyd wedi ystyried ymateb cadarnhaol y Cyngor i'n hadborth cynnar ar ein gwaith, a photensial cadarnhaol ei fodel gweithredu newydd.

144 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau etholedig y Cyngor am eu cymorth yn ystod ein Hasesiad Corfforaethol.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob Cyngor gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes y Cyngor o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob Cyngor (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r Cyngor a'r Gweinidogion perthnasol, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn Cyngor gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir y Fflint

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella 2014-15 a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a

c gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones, Rheolwr

Paul Goodlad, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Sir y Fflint

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio'i berfformiad o ran:

a cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;

b cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;

c cyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a

ch chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Nid oes unrhyw argymhellion yn codi o'r archwiliad o asesiad Cyngor Sir y Fflint o berfformiad yn 2013-14.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Huw Lloyd Jones, Rheolwr

Paul Goodlad, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir y Fflint 2013-14

Y Cynghorydd Aaron Shotton
Colin Everett
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Annwyl Aaron a Colin,

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Sir y Fflint 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

a rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;

b cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

c paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a

ch sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

b adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a

c chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn datgan eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion a ddeilliai o'm harchwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd wrth aelodau Cyngor Sir y Fflint yn fy adroddiadau ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 24 Medi 2014. Ceir crynodeb ohonynt isod:

a Nid yw cofnodion sy'n ymwneud ag asedau anghyfredol ar gofrestr asedau'r Cyngor yn ddigon manwl fel bo modd adnabod asedau unigol yn rhwydd ar draws yr holl gategorïau ased. Mae goblygiadau posibl i hyn o ran cyfrifo asedau a hefyd o ran bodolaeth asedau a'r defnydd ohonynt. Roedd y Cyngor yn gallu rhoi digon o wybodaeth i ni roi barn ddiamod ar y cyfrifon, ond gallai'r Cyngor wella ansawdd y gofrestr asedau, a byddai hynny'n weithred fuddiol.

b Parhaodd y Cyngor i wella ansawdd ei gyfrifon er i ni nodi rhai materion yn gysylltiedig â therfynu gwariant (hy, cyfrifo trafodion yn y cyfnod cywir) a dosbarthiad balansau'n gysylltiedig ag adneuon.

c Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a oedd ar gael iddo, nid oedd y Cyngor yn llwyr gydnabod atebolrwydd am gyfraniadau pensiwn ar gyfer ei atebolrwydd cyflog cyfartal. Mae hyn yn groes i gyngor cyfreithiol a gafwyd gan yr Archwilydd Penodedig sy'n awgrymu y dylid talu cyfraniadau pensiwn wrth dalu i ddatrys hawliadau am gyflog cyfartal. O ystyried y gwahaniaeth rhwng y safbwyntiau cyfreithiol a'r ansicrwydd ynglŷn â'r angen i gydnabod darpariaeth, casgliad yr Archwilydd Penodedig oedd na fyddai'n cymryd unrhyw gamau pellach yn rhan o archwiliad o gyfrifon 2013-14.

ch Er na wnaethom nodi unrhyw faterion penodol, mae'n hanfodol i'r Cyngor, yn ei rôl fel yr awdurdod sy'n gweinyddu, barhau i weithio'n agos â'i Gyrff Cyflogi (gan gynnwys Cynghorau Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, yn ogystal â sawl corff llai) i sicrhau bod cofnodion aelodaeth y gronfa bensiwn yn gyfredol a chofnodi data cywir ar gyfer cofnodion gweithredol, cofnodion gohiriedig a chofnodion pensiynwyr. Mae hyn yn bwysig ar gyfer yr unigolion dan sylw a hefyd i'r cyrff Cyflogi er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrifo rhwymedigaethau pensiwn yn gywir yn eu priod ddatganiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (CLIG) o dan *Orchymyn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (Dynodi Cyrff)* Trysorlys Ei Mawrhydi. Cyflwynodd y Cyngor ei ffurflen CLIG erbyn y dyddiad cau. Adolygwyd y ffurflen ac ni chanfuwyd unrhyw faterion yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

Mae hefyd yn werth nodi mai'r Cyngor sy'n arwain y gwaith o baratoi cyfrifon Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Taith. Ar 30 Medi, rhoddais farn ddiamod ar y ddwy set o gyfrifon gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyd-bwyllgorau dan sylw. Adroddwyd y prif faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgorau perthnasol yn yr adroddiadau ar fy Archwiliad o'r Datganiadau o Gyfrifon. Nid oes angen i mi dynnu eich sylw at unrhyw fater yn y llythyr hwn.

**Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol**

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Eleni, bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cynnwys canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a gynhaliwyd ym mis Medi 2014.

Cyn 2014-15, mae gan y Cyngor hanes o nodi'n gywir a chyflenwi ei ddiffyg cyllidebol bob blwyddyn. Wrth sefydlu ei gyllideb ar gyfer 2014-15, rhoddodd y Cyngor adolygiad strwythurol graddfa fawr ar waith er mwyn sicrhau arbedion drwy effeithlonni corfforaethol a swyddogaethol, a dylunio'r sefydliad mewn modd a ganolbwyntiai ar strwythur a'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhagweld bod cyfran dda o'r arbedion a gynlluniwyd yn debygol o gael eu sicrhau. Fodd bynnag, ni sicrhawyd yr arbedion a ragwelwyd yn sgil cam cyntaf y Rhaglen Diswyddiadau Gwirfoddol, ac mae'r ail gam ar waith ar hyn o bryd. Ceir risg weddilliol y bydd diffyg sylfaenol i'r gyllideb yn cael ei drosglwyddo i 2015-16 ac ar ôl hynny, os na ellir canfod arbedion parhaol, a bydd hynny'n ychwanegu at y pwysau yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol, ond ar yr un pryd yn wynebu lefelau digynsail o galedi. Yn dilyn manylion setliad Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer 2015-16, mae'r Cyngor bellach yn wynebu bwlch o £16.4 miliwn yn ei gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae'n bosibl y bydd y diffyg yn 2014-15 yn gwaethygu'r bwlch hwn, gan greu'r angen am lefel o doriadau nas gwelwyd o'r blaen.

Mae'r Cyngor, yn arbennig drwy gydymdrechion y Cabinet a'r Tîm Prif Swyddogion newydd, yn datblygu cynlluniau busnes tair blynedd manwl. Bydd y rhain yn sail ar gyfer y cynigion i ymdrin â'r diffyg sylweddol hwn. Fodd bynnag, mae maint y bwlch yn y gyllideb a'r ansicrwydd sy'n parhau yn golygu ei bod hi'n dal yn her aruthrol i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys y gellir ei gwireddu ar gyfer 2015-16. Bydd rhagolygon y blynyddoedd nesaf yr un mor heriol. Mynegais bryder yn flaenorol ynghylch natur flynyddol y gwaith cynllunio ariannol, felly da yw nodi y bydd cynlluniau busnes y Cyngor o hyn allan yn sail wrth gynllunio ar gyfer 2016-17 a thu hwnt, yn ogystal ag ar gyfer 2015-16, ac y bydd hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun cyllideb 2015-16.

**Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013. Cyflwynais hefyd dystysgrif cwblhau i'r Cyd-bwyllgorau ar yr un dyddiad.**

**Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn fy ngwaith ardystio ffurflenni a hawliadau grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 neu systemau ariannol allweddol**

Ym mis Medi 2014, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio fy adroddiad Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2012-13 oedd yn cadarnhau bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith er mwyn paratoi a chyflwyno ei hawliadau grant. Fodd bynnag, roedd 65 y cant o hawliadau naill ai wedi'u diwygio ac/neu'n cynnwys amodau, ac mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ymhellach. I gynorthwyo yn hyn o beth, ac ar ôl rhoi hyfforddiant ar grantiau i swyddogion perthnasol, cyhoeddwyd memoranda adborth Grantiau gennym ar gyfer pob hawliad, er mwyn canfod gwelliannau'n gysylltiedig â grantiau unigol.

Mae fy rhaglen o waith archwilio ar hawliadau grant 2013-14 ar y gweill ar hyn o bryd, a byddaf yn cyflwyno adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn nhymor y gwanwyn 2015 ar ôl cwblhau rhaglen waith ardystio grantiau eleni. Byddaf yn gwneud gwaith dilynol i ganfod a ymdriniwyd â'r gwelliannau a nodwyd yn ein memoranda adborth ar gyfer 2012-13.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yn gywir

**John Herniman**
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedi

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk